Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Y Gwasanaeth Gwyddnwch Hinsawdd Adroddiad Monitro Chwarterol ar Risgiau Hinsawdd a Chadwyn Gyflenwi i'r Diwydiant Bwyd a Diod

Mehefin - Medi 2026

Cynnwys

Cyflwyniad *3*

Crynodeb *4*

Effeithiau'r Hinsawdd *5*

Cymru a'r DU 5

Ewrop 8

Gogledd a De America 13

Asia ac Oceania 15

Affrica 15

Ein Hinsawdd sy'n Cynhesu 15

Gwrthdaro *19*

Gwrthdaro'r UDA-Israel-Iran 19

Gwrthdaro Rwsia-Wcráin 21

Effeithiau ar danwydd ac ynni 21

Nwyddau Byd-eang *25*

Olewau a Chigoedd 25

Cig 28

Coffi, Coco, Siwgr 30

Grawn 33

Gwrteithiau 35

Prisiau Nwyddau a Mewnbwn y DU *38*

Cnydau 38

Gwrteithiau 39

Cynnyrch llaeth 40

Prisiau Tanwydd y DU 42

Ynni 42

Logisteg *45*

Cyfyngiadau ar Allforio *50*

Yr Economi *52*

Diweddariad ar El Niño *54*

Effeithiau ar gynhyrchu cynradd domestig 57

Rhagolwg ac Ystyriaethau *58*

Atodiad 1 – Methodoleg *59*

Cyfyngiadau data 59

Ffynonellau 59

Atodiad 2 – Crynodeb o Wasanaethau Cynaliadwyedd a Gwydnwch Hinsawdd *60*

Yr Is-adran Fwyd – Cymorth sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer busnesau Bwyd a Diod 60

Rhaglenni cymorth amaethyddol eraill 62

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr effeithiau negyddol a achosir gan yr hinsawdd a tharfu ar y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae'n ceisio amlygu'r effeithiau a'r goblygiadau i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, er mwyn helpu i reoli cadwyni cyflenwi a gwneud penderfyniadau rhagfynegol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod 1 Gorffennaf 2026 i 30 Medi 2025. Mae'r ffeithlun ar y dudalen nesaf yn crynhoi'r risgiau hinsawdd a chadwyni cyflenwi sy'n cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn a'u perthnasedd i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyhoeddi'n chwarterol. Roedd y data a'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn yn gywir ar 30 Medi 2026, oni nodir yn wahanol.

Crynodeb


RISGIAU HINSAWDD A CHADWYNI CYFLENWI BWYD A DIOD
Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales
Gorffennaf - Medi 2026
Rhif 2
CHWE PHRIF RISG
HINSAWDD
• Tywydd poethaf a gofnodwyd, 5 ton wres, sychder cyffredinol
• Cnydau llai a phwysau ar borthiant gaeaf
• Lefelau lleithder y pridd yn isel
GWRTHDARO BYD-EANG
• Cyfyngiadau Hormuz yn dal i amharu ar gyflenwadau ynni
• Ymosodiadau yn y Môr Du yn effeithio ar allforion grawn
• Risgiau i danwydd a gwrthaith yn parhau'n uchel
LOGISTEG
• Sychder yn effeithio ar ddyfrffyrdd mewndirol a'r prif dagfeydd – cyfyngiadau ar faint cargo
• Costau cludo y DU yn codi
• Costau cludo nwyddau ac amseroedd arwain yn ansefydlog
NWYDDAU CRAI
• Costau gwenith, siwgr a bwydydd yn cryfhau
• Rhai mewnbynnau'n lleddfu, ond yn parhau'n ansefydlog
• Adolygu gorsymiau a chynlluniau prynu a dal stoc
CYFYNGIADAU AR ALLFORIO
• Cyfyngiadau ar ddiesel Rwsia a gwrteithiau
• Ansicrwydd ynglŷn ag allforion ffosffad o China
• Monitro cyfyngiadau ar siwgr ac argaeledd cyflenwadau
EL NIÑO
• Digwyddiad sy'n cryfhau yn ychwanegu at risgiau 2027 – haf poethach fyth?
• Coffi, coco, siwgr, reis ac olewau llysiau'n cael eu Hamlygu
• Effeithiau ar dywydd y DU yn ansicr – poethach, gwlypach efallai
PRIF DUEDDIADAU PRSIAU NWYDDAU CRAIDD
MEWNBYNNAU'N CODI
Coco +50% ers dechrau 2026
Blawd Ffa soia +28% ers Ch3 2025
Gwenith HRW yr UDA +33% ers Ionawr 2026
Siwgr +28% ers Ionawr2026
Gwrtaith DAP +26% ers dechrau 2026
Trydan y DU +85.75% ers dechrau 2026
GWELLA, OND DAL YN ANSEFYDLOG
Cig eidion –15% ers uchafbwynt 2026
Coffi Robusta 24% ers uchafbwynt 2025
Coffi Arabica –17% o'i gymharu â diwedd 2025
Wrea –42% ers Ch2 2026
Potash –9% o'i gymharu â Ch2 2026
Cig oen –4.5% ers Gorffennaf 2026
AMLYGIAD I'R HINSAWDD FYD-EANG
Dibyniaeth y DU ar fewnforion
Sychder yn yr UDA – effeithio ar rawn, bwyd anifeiliaid
Yr haf poethaf i'w gofnodi yng Ngorllewin Ewrop – effeithio ar gnydau grawn, ffrwythau, llysiau a salad
Ail haf gwlypaf Asia, llawer o stormydd trofannol
Mae tywydd eithafol dramor yn risg i fusnesau yng Nghymru
EFFEITHIAU AR FUSNESAU
Costau Mewnbwn uwch
Ansicrwydd o ran cyflenwadau
Ansefydlog-rwydd prisiau
Tarfu ar weithred-iadau
Pwysau ar y gadwyn oer
Pwysau ar lif arian
HELP I FUSNESAU
Effeithlonrwydd y Gwasanaeth Cynaliadwyedd, adrodd ar garbon a chydweithrediad
Gwasanaeth Gwydnwch Hinsawdd sesiynau pwrpasol ar y safle wedi'u hariannu'n llawn i dimau arweinyddion uwch
Cymorth ar gael yn support sustainablefd@gov.wales
CRYNODEB O EFFEITHIAU'R HINSAWDD YN Y DU A CHYMRU: GORFFENNAF – MEDI 2026
Haf poethaf yn y DU
Tymheredd cymedrig yn 16.5°C (dros dro)
Cymru gyfan mewn sychder
Datganiad cenedlaethol 30 Goffennaf
Tymheredd eithafol yn y dydd, rhai nosweithiau trofannol
Llawer o rannau o Gymru wedi cael 50–70% yn unig o lawiad arferol yr Haf
Lleddfu rhywfaint ar amodau sychder ym mis Medi
Cynaeafau gwael[3] Cyfyngiadau ar ddyfrhau a thynnu Dŵr
Lefelau lleithder y pridd wedi gostwng
Pwysau ar borthiant gaeaf
Amlygiad uwch bwydydd
Pryderon am lesiant anifeiliaid
Cynnyrch llai
Iechyd a llesiant staff, problemau ag ansawdd cynnyrch a ryseiriau, methiannau yn y gadwyn oer, tarfu ar batrymau shifftiau, systemau oeri'n defnyddio mwy o ynni
[3] O'i gymharu â chyfartaledd 5 mlynedd y DU. Costau nwyddau wedi'u talgrynnu. Ffynhonnell: Monitor Chwarterol Risgiau Hinsawdd a Chadwyni Bwyd a Diod, Gorffennaf –Medi 2026.

Effeithiau'r Hinsawdd

Cymru a'r DU

Roedd hwn yn haf eithriadol ac yn un sydd wedi torri sawl record. Mae Swyddfa Dywydd y DU yn ei ffigurau dros dro wedi disgrifio'r haf hwn fel yr un poethaf a gofnodwyd erioed yn y DU, gyda thymheredd cyfartalog o 16.5°C. Y pum haf cynhesaf i'w cofnodi yn y DU yw: 2026, 2025, 2018, 2006, a 2003. Roedd hefyd yn un o'r mwyaf heulog ac rydym wedi cael y Gorffennaf sychaf erioed. Er bod peth glaw wedi cyrraedd ym mis Awst, profodd llawer o ardaloedd lawiad is na'r cyfartaledd, yn enwedig yng Nghymru a de Lloegr.

Bydd yr amodau poeth, sych a brofwyd yn ystod yr haf yn golygu y bydd 2026 yn cael ei chofio hefyd am y niferoedd uchel o danau gwyllt yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol. Yn ôl nodyn briffio, "Tanau gwyllt 2026" Ymchwil y Senedd[1], hyd at 1 Medi, roedd 28,299 hectar o dir wedi llosgi yn y DU. Erbyn canol Awst, roedd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a Lloegr wedi ymateb i fwy o danau gwyllt nag yn ystod 2025 gyfan, er mai 2025 oedd y flwyddyn waethaf erioed am danau gwyllt yn y DU. Cafodd rhybudd argyfwng cenedlaethol ei gyhoeddi ddydd Gwener 14 Awst[2] i rybuddio'r cyhoedd o'r risg uchel iawn o danau gwyllt.


Mae **Siart 1** yn dangos anomaledd tymheredd cymedrig 2026 o'i gymharu â chyfres amser 1991 – 2020, gyda'r rhan fwyaf o Gymru a Lloegr yn profi gwerth anomaledd o 2°C yn uwch na'r tymheredd cymedrig am 1991 i 2020.

Mae **Siart 2** yn dangos bod pob rhan o Gymru, y rhan fwyaf o Loegr a rhannau mawr o'r Alban, wedi profi glawiad is yn ystod haf 2026. Cafodd sawl rhan o Gymru rhwng 30% a 70% yn unig o'u glawiad o'i gymharu â'r glawiad cyfartalog am 1991 – 2020.

Ar 30 Gorffennaf, ehangodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei ddatganiad sychder[3] i gynnwys Cymru gyfan, gyda lefelau is o ddŵr daear a llif isel mewn afonydd. Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd statws sychder ar gyfer llawer o ardaloedd yn Lloegr ar 29 Gorffennaf[4]. Datgelodd monitro pellach ym mis Awst fod 71% o Loegr mewn sychder[5] gydag adroddiadau am dyllau turio amaethyddol yn sychu, lefelau cronfeydd dŵr ffermydd yn ddifrifol o isel a dros 1,500 o gyfyngiadau ar drwyddedau tynnu dŵr mewn grym, gan gynnwys lleihau dyfrhau yn East Anglia.


[1] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/tanau-gwyllt-haf-2026-pigion/
[2] https://www.gov.uk/alerts/14-aug-2026-2
[3] https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/drought-status-extended-across-all-of-wales-as-environment-continues-to-feel-the-strain?lang=en
[4] https://www.gov.uk/government/publications/dry-weather-and-drought-in-england-2026-summary-reports/dry-weather-and-drought-in-england-24-to-30-july-2026
[5] https://www.gov.uk/government/publications/dry-weather-and-drought-in-england-2026-summary-reports/dry-weather-and-drought-in-england-14-to-20-august-2026

SIART 1: HAF 2026 ANOMALEDD TYMHEREDD CYMEDRIG 1991 - 2020



Ffynhonnell: Swyddfa Dywydd y DU, cyrchwyd 30/09/26

SIART 2: HAF 2026 % GLAWIAD O GYFARTALEDD 1991 - 2020




Ffynhonnell: Swyddfa Dywydd y DU, cyrchwyd 30/09/26

Mae **Siart 3** yn dangos bod Lloegr gyfan ar 19 Awst 2026 naill ai dan statws sychder neu ei bod yn dioddef cyfnod hir o dywydd sych. Mae llawer o'r ardaloedd mewn sychder, fel Swydd Lincoln Fwyaf, East Anglia, Caint, a Chanolbarth a De orllewin Lloegr yn ardaloedd amaethyddol a garddwriaethol pwysig.


Mae **Siart 4** yn dangos lefelau cronfeydd dŵr yn Lloegr a rhannau o Gymru am yr wythnos yn diweddu 18 Awst 2026. Mae'r cylchoedd coch yn dangos lefelau eithriadol o isel, mae'r oren yn arbennig o isel, mae melyn yn is na normal ac mae gwyrdd yn dangos lefelau normal. Nid oedd cronfeydd lle'r oedd lefelau'r dŵr yn normal neu uchel.

SIART 3: MAP STATWS SYCHDER ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD



Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd, cyrchwyd 30/09/26

SIART 4: STOCIAU CRONFEYDD MEWN CRONFEYDD UNIGOL A GRWPIAU O GRONFEYDD, YR WYTHNOS YN DIWEDDU 18 AWST 2026



Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd, cyrchwyd 30/09/26

Mae cyhoeddiadau masnach arbenigol a'r cyfryngau wedi rhoi llawer o sylw i haf eithriadol y DU. Cyhoeddodd The Grocer[6] erthygl a oedd wedi'i seilio ar ymchwil gan yr Energy and Climate Intelligence Unit yn rhybuddio am y risgiau i gynhyrchiant bwyd, maint cnydau a llesiant anifeiliaid. Yn ôl adroddiad yn The Guardian[7] roedd prisiau cyfanwerthu tomatos wedi codi mwy na 60%, letys iceberg 90% a thatws dros 40%. Dywedodd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ar 31 Gorffennaf[8] mai cynhaeaf 2026 oedd y cynharaf mewn o leiaf 20 mlynedd, gyda ffermwyr yn gweithio drwy'r nos i osgoi'r tymheredd eithafol yn ystod y dydd. Nododd yr adroddiad terfynol ar gynnydd y cynhaeaf a gyhoeddwyd gan AHDB yn seiliedig ar ddata a gasglwyd hyd at 21 Medi[9] 'gynhaeaf siomedig iawn', gyda gwenith gaeaf a haidd gwanwyn 11% ac 17% yn y drefn honno'n is na'r cyfartaledd pum mlynedd.

[6] Drought and wildfires threaten food production across Europe | The Grocer
[7] 'Worst we've known': UK turns to imports as drought and heat hit vegetable crops | Food & drink industry | The Guardian
[8] https://ahdb.org.uk/news/2026-harvest-is-earliest-in-at-least-20-years-first-report-published
[9] https://ahdb.org.uk/cereals-oilseeds/gb-harvest-progress

Nid oedd gwaith prosesu dofednod y 2 Sisters Food Group yn Nyfnaint yn gallu gweithredu oherwydd cyfyngiadau ar y cyflenwadau dŵr, gan eu gorfodi i fabwysiadu mesurau wrth gefn, gan gynnwys cludo dŵr i'r safle mewn tanceri[10]. Adroddodd y BBC[11] ym mis Medi fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dweud bod angen tua 120% o'r glawiad arferol rhwng Medi ac Ebrill 2027 er mwyn datgan bod y statws sychder wedi dod i ben yn holl ranbarthau Lloegr.

Roedd cadwyni cyflenwi oer dan bwysau yn ystod y cyfnodau poeth, gyda nifer o adroddiadau am oergelloedd yn methu mewn siopau a mwy o alw am drafnidiaeth a storfeydd a allai reoli'r tymheredd i gadw bwyd yn ddiogel.

Cyhoeddodd yr Energy & Climate Intelligence Unit (ECIU) adroddiad ar dyfiant glaswellt ym mis Awst[12], a nodwyd fod tyfiant yn cynnwys cyfartaledd o 28kg o ddeunydd sych yr hectar y dydd yn yr wythnos yn diweddu 31 Gorffennaf, sydd 46% yn is na chyfartaledd 2019-24 am yr un cyfnod. Roedd yr ECIU yn rhagweld bod tymor 2026 yn debygol o fod rhwng 77% ac 86% o gyfartaledd 2019-24, a fyddai'n effeithio ar argaeledd bwyd a phorthiant, cynhyrchiant a llesiant anifeiliaid, ac economeg ffermydd.

Mae gwres eithafol a sycher wedi effeithio ar bob agwedd ar gynhyrchu cynradd. Mae dadansoddiad yr ECIU[13] sy'n seiliedig ar ddata'r diwydiant yn awgrymu bod cynaeafau tatws yn y DU, yr Almaen, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd yn debygol o fod 3.5 miliwn tunnell yn llai, gyda thyfwyr tatws Prydain yn debygol o wynebu colledion rhwng £80m a £169m. Mae dadansoddiad arall gan yr ECIU[14] yn nodi bod gwres eithafol a sychder wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cynhyrchiant llaeth dyddiol, sy'n cyfateb i 240 miliwn litr yn llai o laeth, sy'n werth dros £83m. Mae llawer o ffermwyr wedi dechrau rhoi porthiant gaeaf i wartheg yn barod, sy'n golygu y bydd ffermwyr yn wynebu cynnydd ym mhrisiau gwair, silwair a bwydydd eraill yn y gaeaf.

Ewrop

Mae'r tywydd poeth difrifol wedi effeithio ar dir mawr Ewrop hefyd yn ystod yr haf. Cyhoeddodd y Joint Research Council (JRC) a Copernicus, gwasanaeth monitro'r hinsawdd ar gyfer yr UE, 'Drought in Europe' ym mis Gorffennaf. Yn ôl yr adroddiad hwn mae amodau "alert" yn parhau yng nghanol dwyrain Ewrop a'u bod wedi gwaethygu yng ngorllewin Ewrop, gan ymledu'n sylweddol yn Ffrainc. Roedd effeithiau'r tymereddau llawer cynhesach na'r arferol gyda lleithder y pridd a llif afonydd yn is na'r arferol, yn cael eu dwysau gan y prinder glaw.


Mae **Siart 5** yn dangos statws sychder Ewrop ganol mis Gorffennaf. Roedd rhybuddion sychder coch yn weithredol yng ngorllewin a chanol dwyrain Ewrop, ac ar hyd arfordir dwyrain Lloegr.

[10] https://www.poultrynews.co.uk/news/willand-poultry-plant-unable-to-operate-as-2-sisters-seeks-emergency-water-supply.html
[11] At least seven months of relentless rain needed to end drought in England - BBC Weather
[12] Energy & Climate Intelligence Unit | When the grass isn't greener:...
[13] Energy & Climate Intelligence Unit | Chips are down – summer drought...
[14] Energy & Climate Intelligence Unit | Over 240 milion litres of milk...

Roedd rhybuddion sychder oren yn ymestyn ar hyd llawer o orllewin Ewrop, ardal y Balcanau a rhannau o Sgandinafia. Roedd statws sychder melyn mewn grym yng Ngorllewin Iwerddon, rhannau o Sbaen, yr Eidal a Moroco.

Rhybuddiodd y bwletin hinsawdd misol ar gyfer Awst[15], a gyhoeddir gan Copernicus, mai haf 2026 oedd y trydydd poethaf a gofnodwyd yn Ewrop gyfan, a'r poethaf erioed yng ngorllewin Ewrop. Cafodd Awst 2026 ei nodweddu gan lawiad isel, lleithder pridd eithriadol o isel a llif afonydd isel ar draws y rhan fwyaf o Ewrop. Achosodd y glaw tua diwedd y mis lifogydd yn lleol.

SIART 5: Y DANGOSYDD SYCHDER CYFUN (CDI) SY'N SEILIEDIG AR GYFUNIAD O DDANGOSYDDION AR GYFER GLAWIAD, LLEITHDER AC AMODAU LLYSTYFIANT GANOL GORFFENNAF 2026




Ffynhonnell: JRC, Copernicus EMS European Drought Observatory, cyrchwyd 30/09/26

Mae **Siart 6** yn cynnwys map o Ewrop sy'n dangos anomaleddau ac eithafion tymheredd aer ar yr wyneb ar gyfer Mehefin i Awst 2026 o'i gymharu â chyfnod cyfeirio 1991 i 2020. Mae'r coch tywyll yn dangos mai rhannau o orllewin Ewrop oedd y poethaf, gyda'r oren yn dangos y rhannau hynny a oedd yn gynhesach nag arfer. Mae'r siart bar yn dangos anomaleddau yn nhymheredd aer ar yr wyneb ym Mehefin i Awst fel cyfartaledd gorllewin Ewrop. Mae'r siart bar yn dangos mwy o bigau coch er 2015, gyda haf 2026 yn cofnodi gwahaniaeth o +2.54°C o'i gymharu â'r cyfartaledd am y cyfnod 1991 i 2020.

[15] https://climate.copernicus.eu/climate-bulletin

SIART 6: ANOMALEDDAU AC EITHAFION TYMHEREDD AER AR YR WYNEB AM FEHEFIN - AWST 2026




Ffynonellau: Copernicus Climate Bulletin Awst 2026, cyrchwyd 30/09/26

Gwelodd yr haf nifer anarferol o uchel o ddyddiau poeth, gyda'r tymheredd yn codi'n uwch na 35°C, a nosweithiau trofannol, pan nad oedd y tymheredd wedi gostwng yn is nag 20°C[16].

Mae **Siart 7** yn dangos nifer y dyddiau poeth iawn (dros 35°C) yn ystod Gorffennaf ac Awst 2026 o'i gymharu â haf arferol. Mewn rhannau helaeth o Sbaen, Ffrainc, yr Eidal, ac i raddau llai Groeg a Chroatia, roedd dros 15 diwrnod yn fwy nag arfer lle cofnodwyd tymheredd uwch na 35°C.

[16] https://joint-research-centre.ec.europa.eu/jrc-news-and-updates/european-agriculture-hit-hard-exceptionally-hot-and-dry-summer-2026-09-28_en

SIART 7: ANOMALEDD DYDDIAU POETH GYDAG UCHAFSWM




Ffynhonnell: EU Joint Research Centre, cyrchwyd 30/09/26

Roedd y gwres yn cyflymu'r broses o ddatblygu a heneiddio cnydau, gyda phlanhigion yn mynd drwy gamau critigol eu tyfiant, fel blodeuo a llenwi grawn, yn gyflymach. Mae diffyg glawiad difrifol a llai o leithder yn y pridd ynghyd â thyfiant cyflymach wedi golygu bod gan blanhigion lai o amser ac adnoddau i dyfu a datblygu. Yn yr ardaloedd a effeithiwyd fwyaf, roedd india-corn yn aeddfedu hyd at dair wythnos yn gynharach nag arfer, ac roedd cnydau'n heneiddio ac yn sychu'n gynnar, gan arwain at golledion neu fethiant cynaeafau.

Mae **Siart 8** yn dangos map o Ewrop, gyda rhannau coch neu oren, sy'n cynnwys Ffrainc, Sbaen, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, yr Eidal, yr Almaen a rhannau o ganolbarth Ewrop lle'r oedd datblygiad india-corn grawn erbyn 1 Awst 2006 ar y blaen i'r arfer a sawl wythnos ar y blaen mewn rhai rhanbarthau.

SIART 8: ANOMALEDD CAM DATBLYGIAD CNYDAU – INDIA-CORN GRAWN



Ffynhonnell: EU Joint Research Centre, cyrchwyd 01/10/26

Mae rhagolygon y JRC Monitoring Agricultural Resources (MARS) ar gyfer cnydau yn yr UE (ym Medi 2026) yn awgrymu y bydd sawl cnwd haf pwysig yn llawer is na'r cyfartaledd pum mlynedd:

- Ffa soia 15% yn is
- India-corn ffres (gwyrdd) 14% yn is
- India-corn grawn 8% yn is
- Tatws 8% yn is
- Betys siwgr 11% yn is


Mae glaswelltiroedd Ewrop wedi dioddef yn y cyfnodau hir o wres, gyda phriddoedd yn colli lleithder gan achosi i dyfiant glaswellt ddirywio'n gyflym ar draws y rhan fwyaf o orllewin a chanolbarth Ewrop. Bydd ffermwyr da byw dan bwysau gan y bydd llai o laswellt i anifeiliaid bori arno ac i'w gynaeafu fel bwyd dros y gaeaf, ynghyd â llai o india-corn gwyrdd.

Gogledd a De America

Yn ôl y National Centers for Environmental Information (NCEI), mae'r Unol Daleithiau cyffiniol (CONUS) wedi profi ei haf meteorolegol poethaf (Mehefin i Awst) a'i Awst poethaf erioed[17].

Mae **Siart 9** yn dangos map o'r Unol Daleithiau cyffiniol, gyda'r mannau cynhesaf (mewn coch) yn nhaleithiau'r de orllewin. Mae oren yn ymestyn ar draws y wlad o arfordir y Môr Tawel at yr lwerydd lle'r oedd y tymheredd cymedrig yn llawer uwch na'r cyfartaledd. Mae'r ardaloedd mewn oren goleuach, o'r ffin â Chanada at y ffin â Mecsico'n dangos yr ardaloedd lle'r oedd y tymheredd cymedrig yn uwch na'r cyfartaledd.

SIART 9: MAP CANRADDOL TYMHEREDD CYMEDRIG YR UDA; AWST 2026




Ffynhonnell: National Centers for Environmental Information, cyrchwyd 03/10/26

Roedd sychder yn gyffredin ar draws yr Unol Daleithiau drwy gydol Gorffennaf-Medi 2026, gan ymledu yn ystod Awst wrth i wres ac anweddiad eithafol gyflymu'r broses o dynnu lleithder o'r priddoedd. Erbyn 1 Medi, dywedodd NCEI fod 59.1% o'r Unol Daleithiau cyffiniol mewn sychder, a oedd 10.5% yn uwch nag ar ddechrau Awst[18]. Mae effeithiau El Niño wedi dechrau amlygu eu hunain gyda glawiad sylweddol yn nhaleithiau'r de orllewin. Fodd bynnag, ar 29 Medi, roedd 59.38% o'r 48 talaith lsaf yn dal mewn sychder[19].

[17] Monitoring the U.S. Temperature and Precipitation in August 2026 | News | National Centers for Environmental Information (NCEI)
[18] Monitoring the U.S. Temperature and Precipitation in August 2026 | News | National Centers for Environmental Information (NCEI)
[19] https://www.drought.gov/national/data

Mae **Siart 10** yn dangos yr Unol Daleithiau cyffiniol, gyda'r coch tywyll yn dangos sychder eithriadol, coch yn dangos sychder eithafol, mae'r oren yn sychder difrifol, mae'r oren golau'n sychder cymedrol, mae'r melyn yn dangos ardaloedd anarferol o sych, ac mae'r gwyn yn dangos ardaloedd lle nad oes sychder.

SIART 10: MONITOR SYCHDER YR UDA AR 29 MEDI 2026



Ffynhonnell: U.S. Drought Monitor, cyrchwyd 03/10/26

Ar ddechrau Gorffennaf, roedd tua 47% o ardaloedd cynhyrchu gwenith gaeaf y DU yn profi sychder. Erbyn diwedd Medi, roedd wedi codi i 57%. Roedd yr ardaloedd cynhyrchu gwenith gwanwyn mewn sychder wedi cynyddu o 19% ym mis Gorffennaf i 48% erbyn Medi. Roedd 19% o gynhyrchiant ffa soia'n profi amodau sych ar ddechrau Gorffennaf, gan godi i 27% erbyn diwedd Medi. Ar ddiwedd Gorffennaf, roedd 29% o'r ardaloedd cynhyrchu grawn yn profi sychder, gan ostwng i 21% ddiwedd Medi. Ar ddechrau Gorffennaf, roedd 46% o wartheg yr UDA wedi'u lleoli mewn ardaloedd a oedd yn profi sychder, gan godi i 57% erbyn diwedd Medi[20].

Mae De America wedi profi hinsawdd gymysg sy'n dod fwyfwy o dan ddylanwad El Niño, gyda'r cyfnod Mehefin i Awst y pedwerydd poethaf i'w gofnodi. Ym Mrasil, mae cynhaeaf yr india-corn

[20] Maps | U.S. Agricultural Commodities in Drought

a heuwyd yn yr haf yn dod i ben, gyda chynhaeaf uwch na'r cyfartaledd. Mae cnydau'r gwanwyn yn cael eu hau'n awr (sy'n dymor llai). Mae'r tymor hau ffa soia'n cychwyn ym Mrasil, gan ragweld cynnydd bychan yng nghyfanswm yr arwynebedd o'i gymharu â'r tymor diwethaf.

Asia ac Oceania

Profodd Asia'r ail gyfnod poethaf a gofnodwyd erioed rhwng Mehefin ac Awst, heblaw am 2024, a phrofodd Oceania ei bedwerydd poethaf. Roedd y gaeaf yn gynhesach na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o Awstralia a chafodd Seland Newydd ei drydydd gaeaf cynhesaf ers dechrau cadw cofnodion cenedlaethol yn 1909. Cafodd China ei seiclon trofannol cryfaf ym mis Awst (Teiffŵn Dolffin), gyda Shanghai yn profi'r glawiad uchaf mewn 24 awr mewn dros 150 mlynedd o gofnodion. Profodd Japan ddau ddigwyddiad o lawiad eithriadol ym mis Awst, a arweiniodd at lifogydd a thirlithriadau gan darfu ar gludiant rheilffordd ac awyr.

Affrica

Cafwyd tymereddau uchel iawn ar draws y rhan fwyaf o Affrica, gydag Awst y mis poethaf a gofnodwyd gan gofnodi 2.33°C uwch, gan dorri'r record flaenorol o 0.55°C a dorrwyd yn 2023. Hefyd, cofrestrodd Affrica ei ail lonawr-Awst poethaf i'w gofnodi (heblaw 2024). Profodd rhanbarth y Maghreb yng ngogledd orllewin Affrica, sy'n cynnwys Moroco (ffynhonnell bwysig o ffrwythau a chnydau salad), amodau sychach na'r cyfartaledd yn ystod yr haf[21], [22].

Ein Hinsawdd sy'n Cynhesu

Cyhoeddodd Swyddfa Dywydd y DU yr adroddiad "State of the UK Climate in 2025" yn yr International Journal of Climatology ym mis Gorffennaf 2026[23]. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhagor o dystiolaeth bod hinsawdd y DU yn newid yn gyflym, sy'n cael ei nodweddu gan dymereddau sy'n codi, mwy o eithafion tymheredd a newid mewn patrymau glawiad a'r tymhorau. Mae'r degawdau diweddar wedi bod yn gynhesach, gwlypach ac yn fwy heulog nag yn yr ugeinfed ganrif flaenorol. 2025 oedd y flwyddyn gynhesaf hyd yma mewn cofnodion sy'n dyddio o 1884, a'r ail gynhesaf yng Nghymru. Profodd Cymru dymheredd yn y gwanwyn a oedd 1.4°C yn uwch na chyfartaledd 1991 i 2020 a haf a oedd 1.5°C yn uwch na'r cyfartaledd.

Mewn rhai o ardaloedd cynnyrch garddwriaethol ac âr allweddol dwyrain Lloegr, roedd y diwrnod poethaf cyfartalog yn ystod 2016 i 2025 yn fwy na 4.5°C yn gynhesach nag yn ystod 1961 i 1990. Roedd 2025 yn dymor tyfu eithriadol o sych, a'r gwanwyn oedd y sychaf yn DU er 1974 a'r sychaf yn Lloegr er 1893. Cafodd y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr lai na hanner eu glaw arferol yn y gwanwyn. Roedd glawiad yr haf hefyd yn is na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, bu newid mawr yn y glawiad yn yr hydref, gyda Chymru'n cael 140% o'i glawiad cyfartalog, gan ei wneud y chweched hydref gwlypaf yng Nghymru. Mae'n ymddangos mai'r patrwm tymor hir yw tymhorau tyfu


[21] https://climate.copernicus.eu/precipitation-relative-humidity-soil-moisture-and-river-flow-august-2026
[22] https://climate.copernicus.eu/precipitation-relative-humidity-soil-moisture-and-river-flow-july-2026
[23] https://www.rmets.org/news/state-uk-climate-2025-report-climate-extremes-are-becoming-new-normal-uk

cynhesach a llai o farrug sy'n golygu tymhorau hwy a chyfleoedd i dyfu cnydau gwahanol. Fodd bynnag, mae hefyd fwy o amlygiad i eithafion tymheredd, mwy o anweddiad, prinder dŵr a glawiad mwy amrywiol. Er bod glawiad yn y gaeaf yn cynyddu, gyda hanner blwyddyn gaeaf y DU yn awr 13% yn wlypach nag yn ystod 1961 i 1990, sy'n cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phriddoedd dirlawn, llifogydd, oedi cyn gweithio yn y caeau a tharfu ar seilwaith.

Mae **Siart 11** yn dangos anomaledd y tymheredd cymedrig am 2025 o'i gymharu â'r cyfnod 1991 i 2020 a ledled y DU. Mae'r map yn dangos bod pob rhan o'r DU wedi profi tymereddau uwch yn ystod 2025 o'i gymharu â 1991 i 2020, gyda'r coch tywyllaf yn dangos yr anomaledd tymheredd uchaf.


Mae **Siart 12** yn dangos y cynnydd yn y tymheredd uchaf cyfartalog rhwng 1961 - 1990 a 2016 – 2025. Mae bron y cyfan o Loegr wedi gweld cynnydd sydd o leiaf 3°C, mae rhannau o ddwyrain Lloegr, o Gaint i Swydd Lincoln wedi gweld cynnydd o fwy na 4.5°C. Mae'r cynnydd yng Nghymru wedi bod o leiaf 2°C.

SIART 11: ANOMALEDD TYMHEREDD CYMEDRIG AR GYFER 2025 O'I GYMHARU Â 1991 - 2020



Ffynhonnell: State of the UK Climate in 2025, cyrchwyd 03/10/26


SIART 12: CYNNYDD YN Y TYMHEREDD UCHAF CYMEDRIG AM Y CYFNOD 2016 – 2025 O'I GYMHARU Â 1961 - 1990



Ffynhonnell: State of the UK Climate in 2025, cyrchwyd 03/10/26

Mae **Siart 13** yn dangos anomaleddau glawiad tymor 2025 o'i gymharu â 1991 – 2020 ar gyfer y DU ac ym mhob un o'r pedwar tymor, gyda gaeaf 2025 wedi'i ddangos ar y map ar y chwith a hydref 2025 ar y map ar y dde. Mae'r rhannau brown a ddangosir ar fapiau'r gwanwyn a'r haf yn dangos y mannau a gafodd lai o law na'r cyfartaledd. Mae map yr hydref yn dangos bod Cymru a Loegr wedi bod yn wlypach ar gyfartaledd.

SIART 13: ANOMALEDDAU GLAWIAD TYMHOROL 2025 (%) O'I GYMHARU Â 1991 - 2020



Ffynhonnell: State of the UK Climate in 2025, cyrchwyd 03/10/26

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU


Mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru wedi profi anawsterau wrth weithredu mewn tymereddau eithafol. Tarfwyd ar batrymau shifftiau i osgoi'r tymereddau poethaf yn ystod y dydd. Methodd systemau oeri ac oergelloedd, am na allent ymdopi â thymereddau uchel. Roedd angen mwy o bŵer i oeri. Roedd cynhwysion a deunyddiau craidd yn ymddwyn yn wahanol mewn tymheredd uchel, gan orfod llunio ryseitiau o'r newydd, gyda'r posibilrwydd o effeithio ar ansawdd y cynnyrch. Roedd yn effeithio ar iechyd a llesiant staff. Roedd yr haf yn gipolwg ar y dyfodol wrth i'n hinsawdd barhau i gynhesu. Mae ôl-effaith yr El Niño sy'n datblygu'n debygol o barhau ymhell i'r flwyddyn nesaf, ac mae'n bosibl mai'r flwyddyn honno fydd yr un gynhesaf erioed. Mae risgiau'r hinsawdd yn dod rhywbeth arferol yn hytrach nag eithriadol. Maent yn cael eu profi yng Nghymru, yn y DU ac ymhell y tu hwnt i Gymru ac maent yn cael effeithiau uniongyrchol ar gostau busnesau, parhad cyflenwadau a'r gallu i gystadlu. Mae digwyddiadau hinsawdd fel sychder, llifogydd a thonnau gwres mewn ardaloedd sy'n bwysig i gynhyrchu bwyd neu ddeunyddiau craidd yn effeithio ar argaeledd a phrisiau nwyddau amaethyddol allweddol. Dylai gweithgynhyrchwyr fyfyrio ar brofiadau'r haf hwn a pharatoi cynllun i ymateb i wres eithafol a fydd yn barod i'w roi ar waith yn ystod tonnau gwres yn y dyfodol. Dylid adolygu costau ynni yn ystod yr haf ac ymgorffori'r rhain mewn amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r cynnydd a ragwelir ym mhrisiau nwyddau a mewnbwn. Dylid cynnal ymarferion cynllunio senarios i wella parodrwydd am ddigwyddiadau hinsawdd. Dylid adolygu gwledydd a rhanbarthau tarddiad cynhwysion a nwyddau craidd ac ystyried amrywio cyflenwyr.

Gwrthdaro

Gwrthdaro'r UDA-Israel-Iran

Mae gwrthdaro UDA-Israel-Iran yn parhau i darfu ar longau yn y Gwlff ac ar gyflenwadau ynni. Ddechrau Mehefin gwelwyd cytundeb interim Mehefin yn dadfeilio, gydag ymosodiadau o'r newydd a diplomyddiaeth aflwyddiannus yn arwain at gyfyngiadau yng Nghulfor Hormuz. Bu rhagor o ymosodiadau ar longau ym mis Medi. Cafwyd adroddiad yn y Financial Times ar 29 Medi bod cyfryngwyr yn gwneud ymdrech newydd i annog cytundeb rhwng yr UDA ac Iran. Dywedodd yr erthygl fod lluoedd America wedi hebrwng tanceri olew drwy Gulfor Hormuz, ond bod y ddyfrffordd yn dal ynghau i nwyddau eraill, gan gynnwys petrocemegau, tanwyddau puredig a deunyddiau craidd ar gyfer gwrtaith[24].

Mae **Siart 14** yn dangos maint teithiau masnach, mewn tunelli metrig, a hwyliodd drwy Gulfor Hormuz yn 2026. Mae'r llinell ddu doredig yn dangos y symudiadau 7 diwrnod cyfartalog am y flwyddyn flaenorol ac mae'r llinell felen yn dangos y symudiadau 7 diwrnod cyfartalog am 2026. Roedd teithiau llongau arferol i'w gweld tan ddiwedd Chwefror pan ddechreuodd y gwrthdaro. Roedd cynnydd amlwg mewn llongau tua diwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf.




Ffynhonnell: PortWatch, cyrchwyd 03/10/26

[24] https://www.ft.com/content/2e2c868b-9510-4f0c-bbeb-ca17e7a18cc1?syn-25a6b1a6=1

Mae'r cyfyngiadau yng Nghulfor Hormuz yn cael eu dwysau gan y pwysau sy'n parhau ar Gamlas Suez sydd wedi lleihau nifer y teithiau masnachol ers dechrau 2024.

Mae **Siart 15** yn dangos y gostyngiad sylweddol yn nifer y teithiau masnach o 2024 ymlaen.

SIART 15: NIFER Y TEITHIAU MASNACHOL DRWY GAMLAS SUEZ ER 2019




Ffynhonnell: PortWatch, cyrchwyd 03/10/26

Ym mis Medi, hawliodd ymladdwyr Houthi fuddugoliaeth bwysig ar arfordir gorllewinol y Môr Coch gan feddiannu ynys wrth geg Culfor Bab el-Mandeb[25], a arweiniodd at bryderon am ddiogelwch llongau rhyngwladol sy'n hwylio ar hyd y ddyfrffordd hon.

Mae **Siart 16** yn dangos y gostyngiad sylweddol mewn teithiau masnachol sy'n hwylio drwy Gulfor Bab el-Mandeb sydd wedi'i leoli yn y fynedfa ddeheuol i'r Môr Coch. Gwelir gostyngiad amlwg arall yn nifer y teithiau masnachol ar ochr dde'r graff.

[25] https://www.bbc.co.uk/news/articles/c23x72yx2rvo

SIART 16: NIFER Y TEITHIAU MASNACHOL YNG NGHULFOR BAB EL-MANDEB ER 2019



Ffynhonnell: PortWatch, cyrchwyd 03/10/26

Gwrthdaro Rwsia-Wcráin

Mae'r gwrthdaro hwn yn dal i amharu ar borthladdoedd y Môr Du a llongau cargo, gyda'r tarfu'n gwaethygu yn ystod yr haf ac yn effeithio ar allforion grawn o Wcráin a Rwsia. Cyn 2022, roedd Wcráin yn gyfrifol am 15% o holl allforion grawn y byd, 10% o'r gwenith, 15-20% o'r haidd a 50% o'r olew blodau haul. Mae ymosodiadau Rwsia wedi haneru'r allforion grawn, o'i gymharu â'r llynedd. Nododd Dirprwyaeth yr UE i Wcráin ar 8 Medi, y gallai Wcráin fod heb storfeydd erbyn mis Hydref, gan adael dros 9 miliwn tunnell o rawn i bydru a ffermwyr heb yr arian i hau cnydau'r flwyddyn nesaf gyda goblygiadau i gyflenwadau a phrisiau bwyd 2027. Er bod Lonydd Cydsefyll yr UE (sy'n defnyddio llwybrau logisteg amgen ar reilffyrdd, ffyrdd a dyfroedd mewndirol) wedi helpu, mae angen mynediad diogel a dibynadwy i borthladdoedd y Môr Du. Mae'r ymosodiadau'n effeithio ar brisiau cludo nwyddau. Dywedodd yr FT ganol mis Awst fod costau cludo mewn tanceri ar eu huchaf er 2005. Mae ymosodiadau dan ddronau Wcráin ym Môr Azov wedi gorfodi Rwsia i roi'r gorau i deithiau masnachol. Dywedodd y Cyngor Cysylltiadau Tramor fod ymosodiadau gan Wcráin wedi dinistrio neu atal mwy nag 70% o allu Rwsia i allforio grawn.

Effeithiau ar danwydd ac ynni

Mae gwrthdaro UDA-Israel-Iran yn parhau i effeithio ar brisiau olew wrth i fethiant trafodaethau olygu oedi tan y flwyddyn nesaf cyn y bydd olew yn llifo fel arfer unwaith eto.

Cyhoeddodd yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol (IEA) ei Oil Market Report ym mis Medi[26] lle nodwyd fod lefelau olew yn parhau i ostwng, ynghyd ag olew sy'n cael ei gludo (ar ddŵr) wrth i draffig tanceri o'r Dwyrain Canol fod yn destun ymosodiadau newydd.

Mae **Siart 17** yn dangos y newidiadau ym mhris Olew Craidd Brent ers dechrau 2026, gyda chynnydd mawr yn syth ar ôl i'r gwrthdro ddechrau, gan ostwng wedyn yn ystod Mai a Mehefin wrth i'r negodiadau arwain at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU). Yn dilyn y gostyngiad ym mis Gorffennaf, cododd y pris eto wrth i'r MOU ddod i ben ac ni chafwyd cytundebau ers hynny. Ar 2 Hydref, roedd pris Olew Craidd Brent yn $102.61. Mae hyn bron i 60% yn uwch na blwyddyn yn ôl.

SIART 17: NEWIDIADAU YM MHRIS OLEW CRAIDD BRENT ERS DECHRAU 2026



Ffynhonnell: FT, cyrchwyd 04/10/26

Roedd adroddiad yr IEA ym mis Medi hefyd yn nodi'r effeithiau ar ddiesel, lle mae'r tyndra yn y farchnad ar ei waethaf. Cododd prisiau yn yr UDA yn uwch na $200/casgen ddechrau Medi, sydd 94% yn uwch na'r lefel cyn y rhyfel. Amcangyfrifir fod allforion o wledydd y Gwlff tua hanner yr hyn oeddent cyn y rhyfel, er bod olew craidd wedi bod yn llifo drwy lwybrau / piblinellau sy'n osgoi Culfor Hormuz ac mae hebryngwyr yr UDA wedi bod yn gwarchod peth o'r llif drwy Hormuz. Fodd bynnag, mae allforion cynnyrch puredig ac LPG (Nwy Petrolewm Hylifedig) yn dal i fod 60% yn is nag ym mis Chwefror. Mae'r gwrthdaro rhwng Rwsia a Wcráin wedi gwaethygu'r colledion hyn. Ar 2 Hydref, rhyddhawyd datganiad gan arweinyddion y G7 yn cadarnhau mesurau a gymerir i sefydlogi cyflenwadau ynni, gan gynnwys cydweithio i ryddhau 100 miliwn casgen o olew a diesel drwy'r IEA.

[26] https://www.iea.org/reports/oil-market-report-september-2026

Roedd hyn yn dilyn rhybuddion gan Lywodraeth yr UDA am waharddiadau posibl ar allforio diesel o'r UDA pe na bai gwledydd Ewrop yn cytuno i ryddhau stoc.

Mae prisiau nwy naturiol yn parhau i gael eu heffeithio gan y gwrthdaro, gan darfu ar fordeithiau ac mae'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn ag allforion o Qatar. Mae force majeure estynedig QatarEnergy ar rai cyflenwadau Ewropeaidd o LPG, sy'n cynnwys allforio i'r pedwerydd chwarter wedi ychwanegu at y pryderon am argaeledd nwy wedi'i fewnforio. Mae cyfleusterau storio Ewrop tua 71% yn llawn, sy'n llai o lawer na'r cyfartaledd tymhorol pum mlynedd o 87% wrth i'r cyfandir wynebu misoedd y gaeaf[27].

Mae **Siart 18** yn dangos y newidiadau ym mhrisiau Nwy Naturiol Ewrop yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cododd y pris yn sylweddol ar ddechrau'r gwrthdaro cyn gostwng eto, ond nid i'r lefelau cyn y rhyfel. Mae'r pris wedi bod yn codi ers Gorffennaf, gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Medi cyn gostwng rhywfaint i tua €75 y megawat-oriau.

SIART 18: Y NEWID YM MHRISIAU NWY NATURIOL YN YSTOD Y 12 MIS



Ffynhonnell: Trading Economics, cyrchwyd 04/10/26

[27] https://tradingeconomics.com/commodity/eu-natural-gas

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU


Mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru'n dal yn agored i effeithiau digwyddiadau geowleidyddol sy'n effeithio ar gynnyrch allweddol fel tanwydd ac ynni. Mae'r effeithiau ar brisiau'n dylanwadu ar logisteg yn ogystal â mewnbynnau allweddol fel deunydd pacio a mewnbynnau amaethyddol. Mae gwrthdaro mewn lleoliadau strategol fel Culfor Hormuz, y Môr Coch a Chamlas Suez, a phorthladdoedd y Môr Du yn cynyddu'r risg o amharu ar gyflenwadau a mwy o ansefydlogrwydd yng nghostau blawd, grawn a bwyd da byw.

Nwyddau Byd-eang

Olewau a Chigoedd

Mae **Siart 19** yn dangos bod pris olew palmwydd 2026 yn $1,180/mt ym mis Medi, cynnydd o tua 16.5% ar bris Ch3 2025. Mae tuedd y pris wedi bod am i fyny yn ystod y 12 mis diwethaf, er bod y pris cyfartalog wedi gostwng ychydig rhwng Ch2 a Ch3, cyn codi 4% rhwng Awst a Medi. Nododd Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (FAO) fod y cynnydd ym mhris olew palmwydd yn cyd-fynd â galw cryf yn fyd-eang am fewnforion a phryderon am effaith tywydd sych ar ragolygon cynhyrchiant yn ne ddwyrain Asia[28].

SIART 19: SYMUDIADAU YM MHRIS OLEW PALMWYDD




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 20** yn dangos bod pris olew Ffa Soia yn $1,615/mt ym mis Medi, cynnydd o 30.5% o'i gymharu â'r pris cyfartalog yn Ch3 2025. Bu cynnydd sydyn yn y pris eleni, gyda chynnydd o fwy na 50% rhwng Ch4 2025 a Ch2 2026. Dilynwyd hyn gan ostyngiad bychan o 2.6% ers Gorffennaf 2026. Yn ôl yr FAO bydd prisiau olew soia yn fyd-eang yn parhau gryn dipyn yn uwch na'r lefelau'n gynharach yn y flwyddyn, o ganlyniad i alw mawr gan y sector biodanwydd.

[28] https://www.fao.org/worldfoodsituation/foodpricesindex/en/

SIART 20: SYMUDIADAU YM MHRIS OLEW FFA SOIA




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 21** yn dangos bod prisiau blawd ffa soia wedi cwympo'n sylweddol er 2023. Mae tuedd prisiau yn ystod 2026 wedi bod am i fyny, gan ddiweddu ar $447/mt, cynnydd o 28% ar y pris ar ddiwedd Ch3 2025. Mae'r pris wedi codi 10% rhwng Awst a Medi eleni. Mae prisiau'n codi o ganlyniad i alw mawr yn fyd-eang am fwyd anifeiliaid, er bod hynny wedi'i helpu gan lefelau cynhyrchu cryf yn yr UDA a De America. Yn ôl S&P Global, gallai gweithredu Rheoliad yr UE ar gynnyrch heb achosi Datgoedwigo (EUDR) effeithio ar argaeledd brawd ffa soia a chynyddu costau yn sgil gofynion olrhain a logisteg ychwanegol[29].

[29] https://www.spglobal.com/energy/en/news-research/latest-news/agriculture/092526-european-soybean-meal-prices-surge-despite-asf-driven-demand-concerns-in-spain

SIART 21: SYMUDIADAU YM MHRIS BLAWD FFA SOIA




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 22** yn dangos gostyngiad ym mhrisiau ffa soia o bron i 31% rhwng 2023 a 2025. Fodd bynnag, mae tueddiadau'r prisiau wedi bod am i fyny yn y 12 mis diwethaf, gan gau ym mis Medi ar $524/mt, 12% yn unig yn is na phris uchaf 2023. Roedd gostyngiadau'r ddwy flynedd flaenorol yn ganlyniad i lefelau cynhyrchu cryf. Mae'r galw mawr am ffa soia wedi bod yn gwthio'r prisiau'n uwch yn y 12 mis diwethaf, ynghyd â phrisiau ynni uwch a galw domestig a rhyngwladol, gan gynnwys olew ffa soia ar gyfer biodanwyddau[30].

[30] https://ukragroconsult.com/en/news/global-soybean-prices-rise-7-amid-strong-export-demand/

SIART 22: SYMUDIADAU YM MHRIS FFA SOIA




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Cig

Mae **Siart 23** yn dangos bod prisiau cig eidion wedi codi'n sydyn rhwng 2023 a 2025, gyda chynnydd o 40%. Ar ddechrau 2026, cyrhaeddodd y pris uchafbwynt o $8.10/kg ond bu gostyngiad o tua 15% cyn cyrraedd $6.86/kg ym mis Medi. Nododd Mynegai Prisiau Cig y FAO fod cyfraddau tyfiant anifeiliaid wedi dychwelyd i lefelau normal yn dilyn y dirywiad yn ystod tywydd poeth yr haf, a arweiniodd at gynyddu cyflenwadau a lleddfu'r pwysau ar brisiau[31]. Nododd AHDB hefyd fod tymereddau eithafol yr haf wedi lleihau'r galw ymhlith defnyddwyr[32].

[31] https://www.fao.org/worldfoodsituation/foodpricesindex/en/
[32] https://ahdb.org.uk/news/eu-beef-supplies-continue-to-tighten-beef-market-update


SIART 23: SYMUDIADAU YM MHRIS CIG EIDION



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 24** yn dangos bod prisiau cyw iâr wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chynnydd o 7% yn y pris rhwng Awst a Medi, gan gau ar at $1.81/kg. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.6% o'i gymharu â Ch3 2025.


SIART 24: SYMUDIADAU YM MHRIS CYW IÂR



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 25** yn dangos bod prisiau cig oen wedi codi yn 2025 ac wedi cryfhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod prisiau Awst a Medi wedi gostwng. Roedd prisiau cig oen ym mis Medi yn dal bron 16% yn uwch na'r pris ar ddiwedd Ch3 yn 2025. Mae'r galw am gig oen yn rhyngwladol yn parhau'n uchel ac mae dirywiad tymor hir mewn diadellau bridio ynghyd â'r tywydd a chlefydau wedi cyfrannu at gyfyngu ar gyflenwadau a hybu prisiau uwch[33].

SIART 25: SYMUDIADAU YM MHRIS CIG OEN



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Coffi, Coco, Siwgr


Bu cynnydd mawr ym mhrisiau Coffi Arabica a Robusta rhwng 2023 a 2025, sy'n adlewyrchu effeithiau El Niño. Dechreuodd prisiau ostwng yn 2026, gyda'r ddau'n codi hanner ffordd drwy 2026. Roedd y cynnydd hwn yn adlewyrchu pryderon am y tywydd ym Mrasil, y rhagolygon o El Niño cryf a chyflenwadau llai[34]. Roedd y gostyngiad mwyaf diweddar yn deillio o lawiad ffafriol ym Mrasil a disgwyliadau y byddai cynnydd yn y cyflenwadau[35].

[33] https://ahdb.org.uk/news/tighter-european-sheep-supplies-boost-prospects-lamb-market-update
[34] International Coffee Organisation, Coffee Market Report, July 2026
[35] International Coffee Organisation, Coffee Market Report, August 2026

Mae **Siart 26** yn dangos bod pris Coffi Arabica yn $7.26/kg ym mis Medi, 17% yn is na'r pris uchaf o $8.78/kg ar ddiwedd 2025.


Mae **Siart 27** yn dangos tuedd debyg am i lawr yn achos prisiau Coffi Robusta, a oedd yn $3.69/kg ym mis Medi, 24% yn is na'r pris uchaf yn 2025.

SIART 26: SYMUDIADAU YM MHRIS COFFI ARABICA



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

SIART 27: SYMUDIADAU YM MHRIS COFFI ROBUSTA




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 28** yn dangos maint y cynnydd ym mhris coco rhwng 2023 a 2025, gyda chynnydd o 140%. Bu gostyngiad sylweddol yn y pris yn 2025, cyn dechrau codi eto yn Ch2 2026. Caeodd y pris ym mis Medi ar $5.92/kg, gostyngiad o 24% o'r pris uchaf o $7.80/kg, ond yn dal bron 50% yn uwch nag oedd ar ddechrau'r flwyddyn.

Tawelodd y pris ddiwedd y llynedd am fod rhagolygon y cyflenwadau wedi gwella, gyda disgwyl y byddai cynnydd yng nghyflenwadau Côte d'Ivoire a Ghana[36]. Mae'r cynnydd diweddar yn y pris wedi'i achosi gan bryderon cynyddol am gnwd Gorllewin Affrica yn 2026/27 a hap-brynu. Ym mis Awst gwelwyd tymereddau uwch na'r cyfartaledd a glaw anwadal yn y prif ardaloedd cynhyrchu coco, a oedd yn cynyddu pryderon am glefydau a phlâu, yn ogystal â straen a achosir gan wres[37].

SIART 28: SYMUDIADAU YM MHRIS COCO



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26


Bu cwymp ym mhris siwgr rhwng 2023 a 2025 ond maent wedi dechrau codi ers Ch2 eleni, gan gau ar $0.41/kg ym mis Medi. Mae hyn 28% yn uwch nag ar ddechrau'r flwyddyn, ond 21% yn is na'r pris uchaf o $0.52/kg yn 2023 (**Siart 29**).

Dywed yr FAO fod y cynnydd diweddar mewn prisiau'n deillio o ddisgwyliadau y bydd tynhau ar gyflenwadau siwgr yn nhymor 2026/27. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn cynnwys

[36] https://blogs.worldbank.org/en/opendata/-beverage-prices-moderate-as-coffee-and-cocoa-supply-recover
[37] Cocoa & Chocolate Market Report, September 2026, First Grade International

cynhyrchiant siwgr is na'r disgwyl yng Ngwlad Thai, pryderon am ragolygon cnydau yn India oherwydd glawiad is na'r arfer ac amodau El Niño sy'n cryfhau, glaw trwm yn ardaloedd tyfu De Canolbarth Brasil a llai o dir wedi'i neilltuo i fetys siwgr yn yr UE.

SIART 29: SYMUDIADAU YM MHRIS SIWGR




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Grawn

Mae prisiau india-corn wedi bod yn codi'n raddol er 2025, er eu bod yn dal yn is na'r prisiau uchaf yn 2023. Caeodd y pris ar $239.6/mt ym mis Medi, cynnydd o bron i 15% ers dechrau'r flwyddyn, a dim ond 5% yn is nag uchafbwynt 2023 o $252.7/mt (**Siart 30**).

Ym mis Medi gostyngodd Adran Amaethyddiaeth yr UDA (USDA) ragamcanion cnydau a chynhyrchiant yr UDA a lleihau'r rhagamcan stociau. Roedd Monitor Marchnad mis Hydref System Gwybodaeth am y Farchnad Amaethyddol (AMIS) hefyd wedi nodi rhagamcanion cynhyrchu is ar gyfer india-corn, sy'n adlewyrchu rhagamcanion cnydau is yn yr UE a'r UDA. Mae'r diffyg glaw parhaus yn Ewrop, ynghyd â thywydd poeth, wedi parhau i waethygu amodau i gnydau yng ngorllewin a chanolbarth Ewrop.

SIART 30: SYMUDIADAU YM MHRIS INDIA-CORN




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 31** yn dangos y symudiadau ym mhris Gwenith Gaeaf Coch Caled. Mae'r pris wedi bod yn cynyddu'n raddol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r pris cau o $347/mt bron 33% yn uwch na phris gwenith ar ddechrau'r flwyddyn, a bron 50% yn uwch na Ch3 2025.

Mae prisiau wedi codi'n ddiweddar oherwydd y tarfu ar allforion grawn y Môr Du o ganlyniad i ymosodiadau ar seilwaith y porthladdoedd. Mae'r rhagamcan ar gyfer cynhyrchiant gwenith Awstralia'n llawer is na chynhaeaf y llynedd, sef yr uchaf a gofnodwyd. Mae'r gwres a'r sychder parhaus yng Ngwastadeddau De'r UDA yn bryder oherwydd bod y gwenith gaeaf yn barod i'w hau[38].

[38] AMIS Market Monitor, October 2026

SIART 31: SYMUDIADAU YM MHRIS GWENITH GAEAF COCH CALED YR UDA



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Gwrteithiau


Bu gwahanu ym mhrisiau gwrteithiau yn y cyfnod Gorffennaf i Fedi 2026, gyda DAP (diamoniwm ffosffad) yn parhau i godi, potasiwm clorid yn arafu a wrea yn gostwng yn sydyn o'i bris uchaf yn CH2 cyn codi rhywfaint ym mis Medi.

Mae **Siart 32** yn dangos bod prisiau DAP wedi cau ar $800.6/mt, o'i gymharu â $634.77/mt ar ddechrau 2026, cynnydd o 26%. Mae'r cynnydd hwn wedi arafu yn ystod y misoedd diwethaf, i gynnydd o 2.5% ers Gorffennaf.

Mae'r tarfu ar gludo llwythi o sylffwr ac amonia drwy Gulfor Hormuz yn parhau i roi pwysau ar brisiau DAP, gan fod y deunyddiau hyn yn gynhyrchion pwysig i gynhyrchu gwrtaith ffosffad. Nododd yr Australian Fertilizer Corporation gyfyngiadau ar allforion o China, cyfyngiadau ar logisteg a lleihad mewn lefelau cynhyrchu yn eu diweddariad wythnosol ganol mis Medi[39].

[39] https://ausfertcorp.com/wp-content/uploads/2026/09/afc-media-release-weekly-update-20260918.pdf


SIART 32: SYMUDIADAU YM MHRIS DAP (DIAMONIWM FFOSFFAD)



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 33** yn dangos bod prisiau potasiwm clorid wedi codi ddechrau eleni a hyd at yr ail chwarter cyn gostwng eto i gau ar $367.5/mt, gostyngiad o bron i 9% o'r pris uchaf o $402.9/mt ar ddiwedd Ch2.

SIART 33: SYMUDIADAU YM MHRIS POTASIWM CLORID




Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 34** yn dangos pris cymharol sefydlog wrea yn ystod y tri mis diwethaf. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol o bron 75% rhwng diwedd 2025 a diwedd Ch2 yn 2026, cyn gostwng tua 42% yn ystod Ch3.

Roedd y cynnydd yn y pris yn y rhan gyntaf o'r flwyddyn yn cael ei briodoli i darfu ar allforion o'r Dwyrain Canol, cyfnodau heb gynhyrchu'n rhanbarthol a bod llai o LNG ar gael a oedd yn effeithio ar gynhyrchiant wrea yn India. Bu cwymp yn y prisiau wrth i'r galw gyrraedd isafbwynt tymhorol.

SIART 34: SYMUDIADAU YM MHRIS WREA



Ffynhonnell: Data Prisiau Cynnyrch Banc y Byd (Y Daflen Binc), Hydref 2 2026, cyrchwyd 04/10/26

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU

Mae prisiau cynnyrch byd-eang yn dangos rhagolygon cymysg ond o dan bwysau, gyda grawn, olewau llysiau, ffa soia a siwgr yn codi, gyda choffi a chig eidion wedi dod i lawr o uchafbwyntiau cynharach. Mae coco'n dal yn ansefydlog, ac mae tueddiadau gwrteithiau yn gwahanu, sy'n adlewyrchu amlygiad gwahanol i gostau ynni, cyfyngiadau ar allforion a tharfu ar longau. Mae colledion mewn cynhyrchiant oherwydd y tywydd, ansicrwydd ynglŷn ag El Niño a tharfu ar allforion o'r Môr Du i gyd yn cyfuno gyda galw cryf am fwyd anifeiliaid a biodanwyddau i ddylanwadu ar brisiau. I gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, mae'r symudiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gostau prynu cynhwysion ac yn anuniongyrchol ar gostau cig a llaeth drwy bwysau ar brisiau bwyd a gwrteithiau. Gall y gostyngiadau diweddar mewn prisiau olygu cyfleoedd i brynu, ond dylai busnesau asesu prisiau eu cyflenwyr eu hunain, dyddiadau adnewyddu contractau a dibyniaeth ar gyrchu, gan nad yw meincnodau byd-eang yn cyfateb ar unwaith nac mewn ffordd unffurf i gostau terfynol. Bydd angen rhagamcanu gofalus, ymgysylltu â chyflenwyr ac ystyried cynhwysion neu ffynonellau amgen i gynnal gorsymiau pan fydd ansawdd a manylebau cynnyrch yn caniatáu.

Prisiau Nwyddau a Mewnbwn y DU

Cnydau

Cyhoeddodd AHDB ei adroddiad 'Harvest progress in the UK' ym mis Medi. Dywed hwn fod cynnyrch 2026 yn siomedig ac yn amrywiol iawn ar y cyfan, sy'n adlewyrchu'r diffyg glaw ers y gwanwyn.

Mae **Siart 35** yn dangos bod pob cynhaeaf wedi'u cwblhau heblaw haidd gwanwyn, ac mae 99% o hwnnw wedi'i gwblhau. Haidd gaeaf yw'r unig gnwd sydd heb newid llawer o'i gymharu â lefelau cynnyrch hanesyddol, gyda'r cynhaeaf rêp had olew gaeaf yn fwy nag un 2025 a thua 20%yn fwy na'r cyfartaledd hanesyddol. Mae cynaeafau gwenith gaeaf, haidd gwanwyn a cheirch yn llai na'r llynedd ac yn amrywio o 11% i 17% yn llai na'r cyfartaleddau hanesyddol.

SIART 35: CYNNYDD CYNAEAFAU A CHYNNYRCH A GOFNODWYD HYD AT 21 MEDI

Crop	Harvest 2026: % complete	Harvest 2026: estimated UK average yield to date, t/ha[3]	Historical yields: UK 2025 average, t/ha	Historical yields: UK 10-year average, t/ha	Historical yields: UK 10-year range, t/ha
Wheat	100%	6.9	7.2	7.9	7.0-8.9
Winter barley	100%	6.9	6.8	6.9	6.2-7.8
Spring barley	99%	4.8	5.4	5.7	5.2-6.3
Winter oilseed rape[1]	100%	4.0	3.7	3.3	2.7-3.9
Oats[2]	100%	4.6	4.9	5.4	4.9-5.9

Ffynhonnell: AHDB, Harvest Progress in the UK, cyrchwyd 04/10/26

Gwrteithiau

Mae **Siart 36** yn dangos prisiau'r gwrteithiau a ddefnyddir amlaf. Mae prisiau amonia nitrad a sylffwr nitrad a gynhyrchir yn y DU ac sy'n cael eu mewnforio yn parhau i fod 20-21% yn uwch na'r prisiau ar ddechrau'r flwyddyn, cyn dechrau'r gwrthdaro UDA-Israel-Iran. Mae pris wrea gronynnog wedi gostwng o'r lefelau uchel a gofnodwyd yn gynharach yn y flwyddyn ac mae'n awr 5% yn unig yn uwch na'r pris cyn y gwrthdaro[40].

[40] https://ahdb.org.uk/GB-fertiliser-prices

SIART 36: PRISIAU WYTHNOSOL GWRTAITH PRYDAIN FAWR (£/TUNNELL)

Product	25/09/2026 £/tonne	18/09/2026 £/tonne	Weekly change (£)**	Weekly change (%)	Pre-conflict change (£)***	Pre-conflict change (%)***
AN – UK produced (34.5% N)	£484	£472	£12	2.6%	£82	20.3%
AN – imported* (34.5% N)	£488	£481	£7	1.4%	£84	20.8%
Granular Urea - standard specification (46% N)	£477	£476	£1	0.2%	£22	4.8%
UAN (30% N w/w kg per tonne)	£403	£397	£6	1.6%	£61	17.8%
Muriate of Potash (MOP)	£367	£367	no change	no change	£1	0.4%
Diammonium Phosphate (DAP)	£795	£794	£1	0.2%	£76	10.5%
Triple Super Phosphate (TSP)	£641	£633	£9	1.4%	£115	22.0%
Polysulphate - UK produced	£240	£241	-£1	-0.5%	-£6	-2.5%
Nitrate Sulphur (26% N + 30-37% SO_3)	£482	£485	-£3	-0.7%	£82	20.4%

Ffynhonnell: AHDB, GB fertiliser prices, cyrchwyd 04/10/26

Cynnyrch llaeth

Diweddarodd AHDB ei brisiau cyfanwerthu ar gyfer prisiau cynnyrch llaeth y DU ar 25 Medi, gan nodi fod meintiau llaeth wedi parhau'n wan ledled y DU. Mae ardaloedd nad oedd wedi'u heffeithio gymaint gan sychder yr haf yn cofnodi llaeth gwell. Er bod tyfiant glaswellt yn awr yn ôl i lefelau tymhorol, mi allai porthiant y gaeaf fod yn dynn ac mae'r tafod glas yn bryder o hyd. Mae tyndra yn y cyflenwadau cynnyrch llaeth yn y DU yn cynnal prisiau nwyddau[41]. Mae'r cynnydd ym mhris powdr llaeth sgim (SMP) yn adlewyrchu'r galw cynyddol ymhlith defnyddwyr am brotein. Dywedodd HDB hefyd ei fod er gwaethaf peth cynnydd ym mhris caws cheddar mwyn, yn rhy isel i wneud iawn am y cynnydd ym mhrisiau llaeth a brofwyd.

[41] https://ahdb.org.uk/dairy/uk-wholesale-prices

Mae **Siart 37** yn dangos prisiau cyfanwerthu hufen crynswth, menyn a phowdr llaeth sgim a cheddar mwyn. Mae pob pris wedi codi yn y mis diwethaf, gan amrywio o 3% o gynnydd mewn menyn i 11% o gynnydd mewn SMP. Mae prisiau hufen crynswth a menyn wedi gostwng 34% a 36% yn y drefn honno o'i gymharu â 12 mis yn ôl ac mae cheddar mwyn wedi gostwng 3%. Mae SMP wedi codi 43% o flwyddyn i flwyddyn.


SIART 37: PRISIAU CYFANWERTHU CYNNYRCH LLAETH Y DU

Product	Sep 2026 average (£/tonne)	Range(£)	Aug 2026 average (£/tonne)	Percentage change	Sep 2025 average (£/tonne)	Year-on-year Percentage change
Bulk cream	1,708	n.a	1,607	6%	2,587	-34%
Butter	3,540	350	3,450	3%	5,540	-36%
SMP	2,730	250	2,470	11%	1,910	43%
Mild Cheddar	3,330	385	3,060	9%	3,420	-3%

Ffynhonnell: AHDB, Prisiau cyfanwerthu cynnyrch llaeth y DU, cyrchwyd 04/10/26

Mae **Siart 38** yn dangos prisiau cyfanwerthu cyfartalog y DU rhwng Medi 2023 a Medi 2026, wedi'i fesur mewn £ y dunnell. Mae prisiau menyn wedi parhau'n gyson uwch na chynhyrchion eraill. Er bod eu lefelau'n is erbyn hyn, mae'r pris wedi dechrau codi eto. Mae pob un o'r pedwar cynnyrch wedi dangos dirywiad sylweddol rhwng diwedd haf 2025 a dechrau 2026, ac mae pob un o'r pedwar pris yn awr yn codi eto.

SIART 38: PRISIAU CYFANWERTHU CYNNYRCH LLAETH Y DU ER 2023



Ffynhonnell: AHDB, Prisiau cyfanwerthu cynnyrch llaeth y DU, cyrchwyd 04/10/26

Prisiau Tanwydd y DU


Mae **Siart 39** yn dangos bod pris diesel coch y DU wedi codi mymryn dros 50% yn y 12 mis diwethaf, gyda phris diesel wrth y pwmp y DU wedi codi mymryn dros 35%. Yn y mis diwethaf, mae diesel coch y DU a phrisiau diesel wrth y pwmp y DU wedi codi 7.8% a 5.4% yn y drefn honno.

SIART 39: PRISIAU TANWYDD MISOL

Month	OPEC price (US$ / barrel)	OPEC price (£ / barrel)	UK red diesel (ppl)*	UK diesel pump price (ppl)
Sep-26	110.59	82.43	112.95	191.30
Aug-26	86.44	63.83	104.77	181.49
Month-on-month change	24.15	18.60	8.18	9.81
% change	27.9%	29.1%	7.8%	5.4%
Sep-25	70.61	52.30	75.21	141.57
Year-on-year change	39.98	30.13	37.74	49.73
% change	56.6%	57.6%	50.2%	35.1%

Ffynhonnell: AHDB, Traciwr Tanwydd Misol, cyrchwyd 07/10/26

SIART 40: TRACIWR PRISIAU TANWYDD MISOL



Ffynhonnell: AHDB, Traciwr Tanwydd Misol, cyrchwyd 07/10/26

Mae **Siart 40** yn dangos y cynnydd sylweddol ym mhrisiau tanwydd yn gynharach yn y flwyddyn pan ddechreuodd y gwrthdaro UDA, Israel ac Iran. Bu gostyngiad yn y prisiau o ddiwedd y gwanwyn hyd ddechrau'r haf pan arweiniodd trafodaethau diplomyddol at y memorandwm cyd-ddealltwriaeth (MOU) a dechreuodd llongau hwylio eto drwy Gulfor Hormuz, ond mae'r niferoedd yn llawer llai na chyn y rhyfel. Fodd bynnag, cododd y prisiau eto pan ddaeth yr MOU i ben a rhoddwyd y gorau i gludo'r llwythi.

Ynni

Mae trydan y DU wedi codi £70.26/megawat-awr (MWh) neu 85.75% ers dechrau 2026. Er bod hyn yn gynnydd sylweddol, mae'n llawer is na'r pris uchaf erioed o £580.55/MWh) a brofwyd ym mis Medi 2022[42].

Mae **Siart 41** yn dangos y cynnydd sydyn ym mhrisiau cyfredol trydan y DU ers dechrau'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, gyda phrisiau wedyn yn gostwng tan fis Mai. Ers hynny, bu tuedd am i fyny yn y pris, gan gyrraedd £152.94/MWh) ar 2 Hydref 2026.

[42] https://tradingeconomics.com/united-kingdom/electricity-price

SIART 41: PRISIAU CYFREDOL TRYDAN Y DU



Ffynhonnell: Trading Economics, UK Electricity Spot Prices, cyrchwyd 04/10/26

Nododd Trading Economics fod prisiau nwy naturiol y DU yn parhau i fod dros 180 ceiniog y therm, cynnydd o tua 146% hyd yma eleni gyda phryderon am y cyflenwad yn cynyddu oherwydd y trafferthion yng Nghulfor Hormuz. Mae Prydain yn arbennig o agored oherwydd y capasiti cyfyngedig i storio nwy ac mae'n dibynnu'n drwm ar fewnforion LNG ar longau pan fydd y galw'n codi neu pan fydd lleihad yn yr ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu. Mae gan Ewrop gapasiti storio mwy ond mae'n wynebu stocrestrau isel, gyda chyfleusterau tua 71% llawn o'i gymharu â'r cyfartaledd tymhorol o 87%. Mae danfoniadau i'r DU tua 4% yn llai na chyfartaledd 30-diwrnod y llynedd. Mae tarfu yng Nghulfor Hormuz yn cynyddu'r gystadleuaeth am LNG rhwng prynwyr o Ewrop ac Asia[43].

Mae **Siart 42** yn dangos y cynnydd sydyn ym mhris nwy naturiol y DU ar ddechrau Mawrth, a oedd yn cyd-fynd â dechrau'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Cwympodd y pris wedyn tan fis Gorffennaf, pan ddechreuodd godi'n sydyn eto, gan gau ar 188.10 ceiniog y therm ar 3 Hydref.

[43] https://tradingeconomics.com/commodity/uk-natural-gas

SIART 42: PRISIAU NWY NATURIOL Y DU



Ffynhonnell: Trading Economics, UK Natural Gas Prices, cyrchwyd 04/10/26

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU

Mae prisiau cynnyrch a mewnbwn yn dangos pwysau costau cynyddol, gyda chynaeafau grawn siomedig, cynnydd o'r newydd ym mhrisiau cyfanwerthu cynnyrch llaeth a chynnydd sydyn ym mhrisiau tanwydd ac ynni. Mae prisiau gwrtaith wedi sefydlogi yn achos rhai cynhyrchion ond maent yn dal yn uwch na'r lefelau cyn y gwrthdaro, ac mi allai prinder porthiant gaeaf ychwanegu at y pwysau ar gynhyrchiant da byw. I weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, gallai'r datblygiadau hyn gynyddu costau cynhwyson, prosesu, oeri a dosbarthu ar yr un pryd, gan wasgu gorsymiau a chyfalaf gweithio. Dylai busnesau adolygu rhagamcanion cyflenwyr, contractau ynni a chostau cludiant ynghyd ag ymrwymiadau i gwsmeriaid o ran prisiau, gan gydnabod y gallai symudiadau ym mhrisiau cyfanwerthu gymryd amser i gyrraedd y biliau terfynol. Bydd gwella effeithlonrwydd gweithredol ac ynni, lleihau gwastraff cynhyrchu a chryfhau cynllunio caffael helpu gweithgynhyrchwyr i reoli'r pwysau hyn gan gynnal ansawdd y cynnyrch a chyflenwad dibynadwy.


Logisteg

Mae newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau geowleidyddol yn cael effaith ar gostau cludo nwyddau drwy rai o dagfeydd morol niferus y byd. Gallai'r costau uwch hyn arwain at gostau mwy i ddefnyddwyr a chwyddiant, gan ddangos inni ba mor fregus yw'r cadwyni cyflenwi byd-eang.

Y llwybrau morgludo allweddol sy'n cael eu heffeithio yw Camlas Panama, Afon Rhein, y Môr Coch, Culfor Hormuz a'r Môr Du. Mae'r effeithiau ar logisteg yn y Môr Coch, Culfor Hormuz a'r Môr Du wedi'u cynnwys yn yr adran "Gwrthdaro".

Mae **Siart 43** yn enghraifft o lwybrau morgludo a thueddiadau tymor hir prisiau uwch ym mhob llwybr morgludo.

SIART 43: PRISIAU MORGLUDIANT



Ffynhonnell: FT, cyrchwyd 05/10/26

Mewn adroddiad ym mis Awst dywedodd yr FT fod prisiau ar y llwybrau morgludo prysuraf yng Nghamlas Panama wedi cyrraedd eu lefel uchaf oherwydd cyfyngiadau ar draffig am fod lefelau dŵr yn gostwng o ganlyniad i El Niño sy'n cryfhau a galw uwch sy'n cael ei achosi gan ryfel UDA-Israel-Iran. Roedd ocsiynau dyddiol am gyfle i deithio trwodd

ym mis Awst drwy fflodiardau'r gamlas sy'n cael eu defnyddio amlaf tua $1.1miliwn ar gyfartaledd, mwy nag 16 gwaith yn fwy na'r prisiau cyfartalog am yr un cyfnod y llynedd.[44] Mae El Niño'n cryfhau, a gallai hynny achosi sychder difrifol a thymereddau cynhesach yn y gaeaf, gan ostwng lefelau'r dŵr yn y gamlas. Bydd hyn yn cyfyngu ar faint o gargo y gall llongau ei gludo trwodd ac efallai bydd yn rhaid lleihau ar nifer y slotiau cludo fydd ar gael.

Mae llwybrau eraill ar y môr yn cael eu hystyried i osgoi'r tagfeydd morol hyn. Dywedodd yr FT ddechrau mis Hydref fod 133 o fordeithiau wedi bod drwy'r Arctig (Llwybr Môr Gogleddol), sydd bedair gwaith y niferoedd yn 2022, a chynnydd o 46% o'i gymharu ag Awst[45].

Rhoddwyd llawer o sylw yn ystod yr haf i lefelau isel y dŵr ym mhrif ddyfrffyrdd Ewrop, fel y Rhein, Donaw, Loire a Po, gan effeithio ar fordeithiau, cynhyrchu ynni ac amaethyddiaeth. Cyhoeddodd y Fforwm Trafnidiaeth Rhyngwladol daflen ffeithiau ym mis Medi ar sychder a chludiant ar afonydd[46]. Roedd yr effeithiau a nodwyd yn cynnwys:


- Ym mis Awst 2026, roedd cychod a oedd yn hwylio o Rotterdam neu Antwerp yn gallu mordwyo ar ganol y Rhein yn unig gyda dim ond 15% o'u capasiti i gludo cargo rhag ofn iddynt grafu'r gwaelod
- Cafodd y capasiti cludo ar Afon Donaw ei leihau tua 30%
- Mae llai o gapasiti cludo ar bob cwch yn golygu bod costau cludo â chychod wedi codi drwy ordaliadau a chynnydd mewn costau cyfredol
- Gyda llai o gapasiti ar gychod, gwneir ymdrechion i ganfod datrysiadau aml-foddol, gan ddefnyddio ffyrdd a rheilffyrdd. Mae hyn yn gofyn am gynyddu capasiti'r ddau fodd o deithio; ac mae perygl na fydd y capasiti hwnnw ar gael pan fydd ei angen
- Gall cargo dreulio mwy o amser mewn porthladdoedd gan fod y cychod yn cludo llwythi llawer llai a gall wynebu oedi os defnyddir rheilffyrdd neu ffyrdd
- Bydd yr heriau hyn yn arwain at gostau uwch a mwy o ansicrwydd

Yn ôl Mynegai Cynwysyddion y Byd Drewry (WCI), mae costau cynwysyddion ar gyfer China i'r UDA yn parhau'n uwch, ar ôl cyfnod o brisiau is tan ddiwedd Gorffennaf, pan ddechreuodd prisiau godi'n sydyn eto. Mae'r prisiau wedi dechrau sefydlogi unwaith eto yn ystod wythnosau olaf Medi. Ar y llaw arall, mae costau cynwysyddion o China i Ewrop wedi parhau i ostwng ers Gorffennaf[47]. Mae'r prisiau ar lwybrau masnach Asia-Ewrop wedi gostwng am 12 wythnos yn olynol. Mae cynyddu teithiau drwy Gamlas Suez yn ychwanegu capasiti, er bod ansicrwydd o hyd am weithgarwch yr Houthi. Mae Drewry yn rhybuddio y bydd prisiau cynwysyddion yn parhau'n ansefydlog gyda'r galw, newid mewn capasiti a datblygiadau geowleidyddol yn dylanwadu ar brisiau.

[44] Panama Canal fees hit record high as El Niño and Iran war choke shipping
[45] Arctic sea routes boom as Gulf war and global warming divert shipping
[46] https://www.itf-oecd.org/droughts-river-transport
[47] https://www.drewry.co.uk/supply-chain-advisors/supply-chain-expertise/world-container-index-assessed-by-drewry

Mae **Siart 44** yn dangos prisiau llwybrau Asia-UDA a llwybrau Asia-Ewrop. Dangosir prisiau Asia-UDA mewn porffor a glas; a dangosir prisiau Asia-Ewrop mewn melyn a gwyrdd.

SIART 44: PRISIAU CYNWYSYDDION RHYNGWLADOL



Ffynhonnell: Mynegai Cynwysyddion y Byd Drewry, cyrchwyd 05/10/26


Mae Mynegai TEG[48] yn olrhain y prisiau cyfartalog a dalwyd am wasanaethau cludiant a negeswyr y DU. Mae prisiau cludiant wedi cynyddu bron i 11.5% ers Awst 2025, ac mae prisiau negeseuwyr wedi codi ychydig dros 7% yn yr un cyfnod. Gwelodd y ddau gynnydd misol o 2.42%

[48] https://teg.tech/road-transport-price-index/sep-26/

a 2.12% rhwng Awst a Medi 2026 ar gyfer costau cludo a negeseuwyr yn y drefn honno. Galw cryf a phrisiau tanwydd uwch oedd y ddau brif ffactor sydd wedi dylanwadu ar brisiau cludiant yn ystod Medi.

Mae **Siart 45** yn dangos tuedd gyffredinol ym mhrisiau negeseuwyr (y llinell felen) a cherbydau cludiant (y llinell las). Mae'r llinell ddu'n dangos Mynegai Marchnad TEG.

SIART 45: PRISIAU CLUDIANT



Ffynhonnell: Mynegai TEG, cyrchwyd 05/10/26

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU

I weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, mae'r pwysau logisteg hyn yn golygu prisiau sy'n uwch ac yn anos eu rhagweld am gynhwysion, deunyddiau pacio sy'n cael eu mewnforio, ac i ddosbarthu cynnyrch wedi'u cwblhau, ynghyd â mwy o ansicrwydd ynglŷn ag amser danfon. Mae tarfu'n amharu ar amserlenni cynhyrchu, rhaid cadw mwy o stoc a gofynion cyfalaf gweithio, ac mae'n arwain at oes silff fyrrach i gyflenwadau darfodus. Mae costau cludo yn y DU yn ychwanegu pwysau ar fusnesau sy'n prynu ac yn dosbarthu'n lleol hyd yn oed, ac mae llwybrau allforio annibynadwy'n gallu effeithio ar eu gallu i gystadlu ac ar wasanaeth i gwsmeriaid. Er bod prisiau cludiant yn gostwng ar rai llwybrau, dylai busnesau asesu eu hamlygiad i dagfeydd critigol yn y DU ac yn rhyngwladol, adolygu tybiaethau danfon ac ystyried cyflenwyr a llwybrau amgen, a byffer stoc fforddiadwy i warchod cynhyrchiant a gorsymiau.

Cyfyngiadau ar Allforio

Roedd y perygl o gyfyngiadau ar allforio yn ystod yr haf yn ymwneud â diesel, gwrtaith a siwgr. Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddodd Rwsia eu bod yn ymestyn y gwaharddiad dros dro ar allforio tanwydd diesel, tanwydd morol ac olewau nwy eraill i gynnwys cynhyrchwyr petroliwm. Mae'r gwaharddiad wedi ei ymestyn sawl gwaith ac mae ar waith tan 31 Hydref 2026.

Roedd dyfalu yn ystod Medi a fyddai llywodraeth yr UDA yn cyhoeddi gwaharddiad ar allforion diesel i ostwng prisiau tanwydd domestig. Ddechrau mis Hydref, ac yn dilyn y cyhoeddiad y byddai gwledydd yr G7 yn rhyddhau storfeydd olew a diesel, cafwyd adroddiadau yn y wasg nad oedd y gwaharddiad posibl hwn bellach yn cael ei ystyried[49].

Yn ôl S&P Global, mae ansicrwydd ynglŷn ag allforion gwrteithiau ffosffad o China gyda chynhyrchwyr heb gael arweiniad swyddogol yn egluro a fydd allforion yn ailgychwyn yn dilyn y gwaharddiad a gyhoeddwyd fis Rhagfyr ac a oedd i barhau tan Awst 2026[50].

Cyhoeddodd yr Inter-American Institute for Cooperation on Agriculture (IICA) flog ym mis Awst yn crynhoi rhai o'r cyfyngiadau ar allforio gwrteithiau a roddwyd ar waith yn ystod eleni[51]. Cyhoeddodd Rwsia gyfyngiadau ar allforio cymysgeddau gwrtaith, sy'n weithredol rhwng Mehefin a Thachwedd 2026. Brasil ac India sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan fod y ddwy wlad yn allforio llawer o wrtaith o Rwsia. Dywed y blog hefyd fod yr Aifft wedi cyflwyno treth allforio ar wrtaith nitrogen a oedd yn weithredol tan Awst 2026. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad hwn bellach wedi'i wyrdroi[52].

Ym mis Mai, cyflwynodd India waharddiad ar allforio siwgr a ddaeth i rym ar unwaith, a hynny tan fis Medi 2026[53]. Cadarnhaodd llywodraeth India os na fydd y gwaharddiad yn cael ei ymestyn, byddai'r polisi allforio ar gyfer categorïau siwgr yn dychwelyd yn awtomatig i'r categori "cyfyngedig".

[49] https://www.ft.com/content/97200b07-755c-40ce-a50b-b51666bd4b7e?syn-25a6b1a6=1
[50] https://www.spglobal.com/energy/en/news-research/latest-news/agriculture/090226-china-dap-map-exports-remain-uncertain-as-september-begins
[51] https://blog.iica.int/en/blog/hidden-cost-fertilizer-export-restrictions-times-crisis
[52] https://globaltradealert.org/state-act/99816-egypt-government-repeals-export-duties-on-nitrogenous-fertilisers
[53] https://ddnews.gov.in/en/india-bans-sugar-exports-with-immediate-effect-until-september-2026/

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU

Mae cyfyngiadau ar allforion diesel yn cynyddu'r siawns o gostau tanwydd, trafnidiaeth a dosbarthu uwch, sy'n effeithio ar ddeunyddiau craidd sy'n dod i mewn a danfoniadau sy'n mynd allan. Gallai ansicrwydd ynglŷn ag allforion gwrtaith o Rwsia a China gyfrannu at gostau mewnbwn amaethyddol uwch a lleihau maint cnydau'n fyd-eang, gan olygu prisiau uwch am gynhwysion allweddol sy'n dod o rannau eraill o'r DU neu dramor. Yn y cyfamser, gallai cyfyngiadau ar allforion siwgr o India roi pwysau ar y cyflenwadau siwgr byd-eang a chynyddu costau i weithgynhyrchwyr sy'n dibynnu ar siwgr fel cynhwysyn pwysig. Mae'r mesurau hyn yn dangos sut y gall penderfyniadau polisi geowleidyddol a masnachol effeithio ar weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru a'r angen i fonitro risgiau cyflenwadau, amrywio strategaethau prynu a chryfhau cynlluniau wrth gefn.

Yr Economi


Roedd y gyfradd chwyddiant 12 mis ar gyfer bwyd a diodydd di-alcohol yn 1.3% ym mis Awst 2026, gyda'r gyfradd chwyddiant gyffredinol yn 3.3%, i fyny o 3.1% yn y mis blaenorol. Trafnidiaeth, yn enwedig tanwydd modur, wnaeth y cyfraniad mwyaf ar y cynnydd yn y gost fisol[54].

Mae **Siart 46** yn dangos bod y gyfradd chwyddiant ar gyfer bwyd a diodydd di-alcohol wedi gostwng yn y 12 mis diwethaf. Cyhoeddodd yr IGD ei ragolygon chwyddiant bwyd ym mis Medi, gan nodi er bod chwyddiant bwyd wedi bod yn is na'r disgwyl yn 2026, disgwylir i'r gyfradd godi yn 2027 a 2028 wrth i bwysau pellach ddeillio o effeithiau'r hinsawdd, costau ynni, El Niño a newidiadau i'r maes rheoleiddio[55]. Bydd llai o gynnyrch oherwydd sychder a gwres eithafol yr haf yn ychwanegu at bwysau chwyddiant, ynghyd â'r tarfu geowleidyddol sy'n debygol o barhau.

Cadwodd Banc Lloegr y gyfradd banc ar 3.75% ym mis Medi, er bod tri aelod wedi pleidleisio i godi'r gyfradd i 4%. Nododd y Pwyllgor Polisi Ariannol, wrth wneud ei benderfyniad i beidio newid y gyfradd banc, fod prisiau ynni byd-eang wedi codi'n sylweddol ers penderfyniad Gorffennaf a'u bod yn parhau'n ansefydlog. Mae'r cynnydd ym mhrisiau olew, nwy a chynnyrch puredig yn effeithio ar chwyddiant prisiau i ddefnyddwyr. Nodwyd hefyd yr effeithiau ar brisiau amaethyddol a da byw, a'r posibilrwydd y gallai'r prisiau hyn godi ymhellach o ganlyniad i'r El Niño cryf[56].

[54] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2026
[55] https://www.igd.com/social-impact/economics/reports/viewpoint-food-inflation-pressures-ahead/74082#page=2
[56] https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2026/september-2026

SIART 46: CHWYDDIANT BWYD A DIODYDD DI-ALCOHOL



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr, y DU Awst 2026, cyrchwyd 06/10/26

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU

I weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, y prif bryder yw'r wasgfa rhwng cynnydd mewn costau cynhyrchu a modd cyfyngedig defnyddwyr i ymdopi â rhagor o godiadau mewn prisiau. Bydd angen i weithgynhyrchwyr gydbwyso buddsoddiad mewn cynhyrchiant a gwelliannau mewn effeithlonrwydd gyda rheoli cynnydd mewn costau mewnbwn i gynnal neu wella gorsymiau cynnyrch.

Diweddariad ar El Niño

Cyhoeddodd y BBC ym mis Medi mai'r El Niño sy'n datblygu yw'r cryfaf i gael ei gofnodi erioed, yn ôl gwyddonwyr sy'n monitro tymereddau'r Môr Tawel. Ar 19 Medi, roedd tymereddau dyddiol wyneb y môr yn nwyrain canolbarth y Môr Tawel 3.05°C yn uwch na'r cyfartaledd, gan dorri'r record flaenorol o 3.02°C sy'n dyddio o El Niño cryf iawn 2015. Mae'r El Niño yn dal i ddatblygu a disgwylir iddo gyrraedd ei benllanw yn yr wythnosau nesaf tua diwedd 2026. Fodd bynnag, mae'r effeithiau ar y tywydd i'w teimlo eisoes, gyda glawiad y monsŵn yn is na'r cyfartaledd yn India, mwy o law a llifogydd yn Ne'r UDA a rhannau o Ganolbarth a De America yn ogystal â sychder a thymereddau sychach mewn rhannau eraill o Dde America, Awstralia ac Indonesia. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at effeithiau posibl ar y DU a gogledd orllewin Ewrop, gan gynnwys mwy o law a thywydd stormus yn ystod Tachwedd a Rhagfyr. Fodd bynnag, gall El Niño hefyd fod yn gyfrifol am dywydd oerach yn y DU, sy'n golygu y bydd yn anodd rhagweld beth fydd yr effeithiau uniongyrchol ar dywydd y DU[57].

Yn ôl y Guardian mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu brig o 4.0°C yn ystod Tachwedd a Rhagfyr, sy'n llawer uwch na lefelau'r digwyddiadau blaenorol[58].

Bydd effeithiau El Niño yn para ymhell i 2027, gyda disgwyl i dymereddau byd-eang gynyddu oherwydd ôl-effaith El Niño, a rhagwelir mai 2027 fydd y flwyddyn boethaf a gofnodwyd erioed.

Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi dadansoddiad o effeithiau El Niño ar y DU sy'n awgrymu y bydd y digwyddiad yn rhoi'r system fwyd fyd-eang dan ragor o bwysau gan amharu ar y tymor plannu hydref – gaeaf – gwanwyn os bydd y DU yn profi amodau gwlypach a mwy stormus[59].

Cyhoeddodd yr ECIU adroddiad yn gynnar ym mis Medi, a oedd yn dangos bod y DU yn mewnforio dwy ran o bump o'i bwyd o dramor, a bod chwarter y mewnforion hynny'n dod o'r rhanbarthau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio fwyaf gan El Niño[60].

Mae Asia ac Awstralia fel arfer yn profi tywydd sychach, poethach o dan amodau El Niño. Mae Asia'n profi llai o lawogydd monsŵn, cyfnodau poeth, sychder a phrinder dŵr, gyda chnydau sydd angen llawer o ddŵr fel reis ac india-corn yn dioddef yn arbennig. Arweiniodd El Niño 2023/24 at gynhyrchiant reis is yn ne ddwyrain Asia, gan achosi i India, allforwyr reis mwyaf y byd, gyflwyno gwaharddiadau ar fewnforio. Cododd prisiau 20 y cant gan gyrraedd y lefel uchaf mewn 15 mlynedd. Mae'r DU yn mewnforio tua thraean o'i holl goffi o Asia.

Mae Gorllewin Affrica'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o goco'r byd, gyda Côte d'Ivoire a Ghana yn ffynhonnell tua 80% o fewnforion coco'r DU. Mae prisiau coco wedi parhau i godi ers yr El Niño

[57] Developing El Niño becomes strongest on record weeks before expected peak - BBC Weather
[58] 'Jaw-dropping' El Niño bursts through temperature record months before peak | El Niño southern oscillation | The Guardian
[59] Impacts of El Niño on the UK - GOV.UK
[60] https://eciu.net/analysis/reports/el-ni%C3%B1o-quarter-of-uk-food-imports-including-rice-coffee-and-cocoa-from-parts-of-world-most-exposed

diwethaf yn 2023/25, sy'n dangos y cyfyngiadau sy'n dod yn sgil ei ôl-effeithiau. Er bod prisiau wedi dechrau gostwng ers canol y llynedd hyd ddechrau eleni, maent yn codi eto oherwydd yr ofnau am ganlyniadau El Niño eleni.

Mae El Niño yn arwain at dymereddau uwch a sychder yn Ne America, ynghyd â stormydd trofannol trymach a mwy dwys, sy'n aml yn arwain at lifogydd.

Gall Gogledd America brofi effeithiau amrywiol o ganlyniad i El Niño, gan wneud gogledd yr UDA a Chanada'n sychach a chynhesach nag arfer. Gall hyn gael effaith negyddol ar gnydau soia yn nhaleithiau gorllewin canolbarth y wlad gan fod angen llawer o ddŵr ar soia. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o'r cnwd india-corn yn cael ei dyfu yng ngorllewin canolbarth y wlad a gall gwres mwy eithafol a sychder a achosir gan El Niño fyrhau'r tymhorau tyfu a lleihau maint y cynnyrch.

Mae'r tabl isod yn dangos effeithiau hanesyddol El Niño ar bum cynnyrch allweddol:

Cynnyrch	Gwlad / rhanbarth eu tarddiad	2025 Mewnforion E gwerth a maint	Effeithiau El Niño
Reis	India	£177.3 miliwn 239 miliwn kg	Glawiad monsŵn llai na'r cyfartaledd, oedi cyn plannu, llifogydd eithafol ym Mhacistan sy'n effeithio ar gynaeafau. Cyfyngiadau ar allforion, prinder cyflenwadau'n arwain at brisiau uwch.
Coco	Gorllewin Affrica	£336.9 miliwn 59.3 miliwn kg	O dan yr El Niño diwethaf, cafodd rhanbarthau cynhyrchu coco Gorllewin Affrica ormod o law i ddechrau, gan achosi i gnydau bydru. Yna daeth y sychder. Arweiniodd hyn at y prisiau coco uchaf erioed, gan gostio miloedd o bunnoedd y dunnell yn fwy. Cynyddodd y maint a brynwyd gan y DU yn 2025 9% o'i gymharu â 2024, ond cynyddodd y gwerth 112%.
Coffi	Brasil	£262.1 miliwn 47.7 miliwn kg	Mae coffi Arabica a Robusta yn sensitif i eithafion sy'n cael eu hachosi gan newid yn yr hinsawdd. Yn ystod yr El Niño diwethaf, roedd cynhyrchwyr coffi De

Cynnyrch	Gwlad / rhanbarth eu tarddiad	2025 Mewnforion E gwerth a maint	Effeithiau El Niño
			America wedi profi glawiad anwadal, gwres a chlefydau, yn ogystal â straen gwres ar weithwyr. Yn dilyn El Niño 2023/24, cynyddodd gwerth mewnforion coffi o Frasil 32% a gostyngodd y maint 25%. Bu cynnydd o 77% yn y pris fesul cilogram yn 2025
Ffa soia	Brasil	£171.5 miliwn 505.5 miliwn kg	Mae'r DU yn dibynnu ar ffa soia wedi'u mewnforio i fwydo da byw. Gall El Niño gael effaith bositif ar gnydau ffa soia. Fodd bynnag, mae mwy o berygl o sychder a thanau gwyllt yn ystod blynyddoedd El Niño
Gwenith	Canada, India, Awstralia, China, Pacistan, Rwsia, yr Almaen, Ffrainc	Canada: £172.0 miliwn 691.4 miliwn kg	Prif bartneriaid mewnforio gwenith y DU yw Canada, yr Almaen a Ffrainc. Er nad yw'r DU yn mewnforio llawer iawn o wenith o wledydd eraill, mae amodau sychach a phoethach a achosir gan El Niño mewn ardaloedd cynhyrchu pwysig yn golygu cynaeafau llai, yn cyfyngu ar gyflenwadau byd-eang ac yn codi prisiau gwenith yn rhyngwladol ac mae hynny i'w deimlo yn y DU.

Ffynhonnell: Addaswyd o adroddiad yr ECUI, El Niño 2026/27 and UK food imports, Medi 2026, cyrchwyd 06/10/26

Effeithiau ar gynhyrchu cynradd domestig

Mae El Niño yn cael llai o effeithiau uniongyrchol ar y DU. Fodd bynnag, mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn gwneud gaeafau'n dynerach a gwlypach ac mae'r Swyddfa Dywydd wedi rhybuddio y gallai El Niño eleni arwain at amodau gwlypach a mwy stormus y gaeaf hwn[61]. Gydag aer cynnes yn dal mwy o leithder, gallai stormydd achosi glaw trymach a mwy o berygl o lifogydd.

Dechreuodd yr El Niño diwethaf ym mis Gorffennaf 2023 ac aeth ymlaen tan fis Mawrth 2024. Hanner blwyddyn y gaeaf i Hydref 2023 i Fawrth 2024 oedd y gwlypaf a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr, gyda llifogydd eang, priddoedd wedi dirlenwi a tharfu difrifol ar gynhyrchiant amaethyddol. Amharwyd ar blannu gaeaf oherwydd priddoedd dirlawn a llifogydd. Parhaodd yr amodau gwlyb tan y gwanwyn ac amharodd hynny ar blannu cnydau'r gwanwyn. Bu gostyngiad o 20% a 24% yn y drefn honno yng nghnydau gwenith a haidd gaeaf. Cofnododd Lloegr yr ail gynhaeaf gwaethaf i'w gofnodi. Effeithiodd y glaw di-baid hefyd ar gynhyrchiant da byw gyda llai o dyfiant glaswellt yn ogystal ag ansawdd y silwair. Roedd y tywydd gwlyb yn cyfyngu ar gynhyrchiant porfeydd a phorthiant, gyda ffermydd yn gorfod prynu bwyd ychwanegol a hynny ar gost uwch.

PAM MAE HYN YN BWYSIG I WEITHGYNHYRCHWYR BWYD A DIOD CYMRU

Mae El Niño yn golygu risg i'r gadwyn gyflenwi ynghyd â chostau ansefydlog yn ogystal â risgiau i'r tywydd yn y DU o ganlyniad i ddigwyddiadau mwy eithafol. Er na fydd rhai busnesau'n cael eu hamlygu'n uniongyrchol i gyflenwyr mewn gwledydd sy'n cael eu heffeithio gan El Niño, mi allant er hynny wynebu costau uwch drwy farchnadoedd cynnyrch byd-eang ar gyfer coffi, coco, grawn, bwydydd anifeiliaid, a rhai cynhwysion. Mae'r enghreifftiau o effeithiau ar y pum cynnyrch a restrwyd yn dangos y risg o 'dalu mwy am lai' lle mae faint sy'n cael ei fewnforio'n llai ond bod eu gwerth wedi codi. Gallai tarfu mewn sawl rhanbarth cynhyrchu ar yr un pryd leihau cyfleoedd i newid cyflenwyr a chynyddu'r gystadleuaeth a'r galw am y cyflenwadau sydd ar gael. Gallai amodau gwlypach yn y DU waethygu'r pwysau hyn. Dylai gweithgynhyrchwyr archwilio eu cadwyni cyflenwi i ganfod cynhwysion a deunyddiau craidd sy'n dod o ranbarthau sy'n sensitif i'r hinsawdd a deall eu hamlygiad iddynt. Bydd dangosyddion sganio'r gorwel o ran nwyddau a'r tywydd yn helpu i wneud penderfyniadau ar lefelau cadw stoc, contractau a gwneud cynlluniau wrth gefn. Mae El Niño yn debygol o waethygu'r pwysau hinsawdd presennol mewn sawl rhanbarth cynhyrchu bwyd ar yr un pryd, gan olygu y bydd risgiau'n ymwneud â'r hinsawdd yn debygol o gael eu trosi'n bwysau ar argaeledd, prisiau, ansawdd a gorsymiau.

[61] https://www.metoffice.gov.uk/blog/2026/an-unprecedented-el-nio-and-its-implications-for-the-weather-forecast

Rhagolwg ac Ystyriaethau

Mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru'n wynebu rhagolygon anodd wrth i bwysau'r hinsawdd, tarfu geowleidyddol a chostau gweithredu uwch atgyfnerthu ei gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y gall ffactorau effeithio ar sawl rhan o'r gadwyn gyflenwi ar yr un pryd, o gynhyrchiant amaethyddol ac argaeledd cynhwysion i ynni, logisteg a pharhad gweithgynhyrchu. Dylai busnesau baratoi gan ddisgwyl y bydd yr ansefydlogrwydd hwn yn parhau yn 2027, gan dderbyn mai sicrwydd bychan yn unig mae'r cwymp ym mhris rhai cynhyrchion yn ddiweddar yn ei gynnig.

Gall effeithiau gwres a sychder yr haf barhau drwy gynaeafau llai, prinder porthiant gaeaf a phwysau ar gynhyrchiant da byw. I weithgynhyrchwyr Cymru, mae hyn yn creu amlygiad drwy gyflenwyr amaethyddol domestig a chynhwysion sy'n cael eu mewnforio. Mae'r El Niño sy'n datblygu yn ychwanegu at yr ansicrwydd o ran rhagolygon cnydau rhyngwladol, yn enwedig coffi, coco, siwgr, reis ac olewau llysiau. Mae ei ddylanwad uniongyrchol ar dywydd y gaeaf yn y DU yn ansicr o hyd, ond dylai busnesau ystyried canlyniadau llifogydd, tarfu ar ddanfoniadau ac oedi cyn plannu yn ogystal â phrinder dŵr.

Mae gwrthdaro sy'n effeithio ar gyflenwadau ynni a llwybrau llongau'n bryder mawr o hyd. Gyda'r ymosodiadau diweddar gan ymladdwyr Houthi ar seilwaith Saudi Arabia, mae siawns y bydd prisiau olew yn codi'n uchel. Gall prisiau uwch nwy, trydan a diesel gynyddu gwariant ar brosesau, oeri a dosbarthu, a gall pwysau ar wrtaith effeithio ar gostau amaethyddol yn y dyfodol. Gallai cyfyngiadau ar allforio a thagfeydd cludiant trafnidiaeth effeithio ar argaeledd. Dylai gweithgynhyrchwyr felly asesu'r effaith cyfun ar orsymiau, llif arian a'u gallu i gadw at eu hymrwymiadau i'w cwsmeriaid.

Mae blaenoriaethau i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru'n cynnwys:

- Nodi cynhwysion a chyflenwyr hanfodol, deall o ba ranbarthau maent yn dod a dibyniaethau trafnidiaeth, a chytuno ar drefniadau wrth gefn
- Dylai ffynonellau amgen, lefelau stoc priodol a chynlluniau danfon hyblyg gael eu gwerthuso yn erbyn oes silff, gofynion ansawdd a chyfalaf gweithio
- Gall effeithlonrwydd o ran ynni a dŵr, dibynadwyedd oeri a pharodrwydd at lifogydd gryfhau gwydnwch gweithredol a lleihau costau
- Bydd trafodaethau rheolaidd â chyflenwyr a chwsmeriaid yn helpu busnesau i ragweld newidiadau ac i adolygu prisiau ac ymrwymiadau contractiol
- Bydd sganio'r gorwel am risgiau a chynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd yn helpu â pharodrwydd
- Mae cadw golwg fanwl ar sut mae cynnydd ym mhrisiau mewnbwn effeithio ar orsymiau a llif arian yr un mor bwysig ag erioed.

Atodiad 1 – Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymchwil desg. Mae'n cyfuno data a mewnwelediadau o amrywiaeth o ffynonellau dibynadwy. Diben yr adroddiad hwn yw dwyn y ffynonellau data hyn ynghyd mewn Adroddiad Monitro Risgiau Hinsawdd a Chadwyn Gyflenwi o'r Diwydiant Bwyd a Diod yn c`hwarterol ac mewn ffordd gyfleus. Er y bwriedir canolbwyntio'n bennaf ar risgiau i'r gadwyn cyflenwi bwyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, bydd risgiau ac effeithiau allweddol eraill yn cael eu cynnwys hefyd, os ydynt yn dod i'r amlwg yn dwysau risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, fel rhyfel yr Unol Daleithiau-Israel-Iran.

Mae llawer o'r ffynonellau data sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, yn enwedig data am brisiau nwyddau, ar gael ar lefel y Deyrnas Unedig neu fyd-eang yn unig, yn hytrach nag ar gyfer Cymru'n benodol. Mae hyn yn adlewyrchu cyfyngiadau ar y data sydd ar gael, gan nad yw ystadegau masnach manwl ar lefel nwyddau'n cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru, fel arfer. Fodd bynnag, mae'r data hyn yn parhau i fod yn berthnasol am fod gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru yn cael eu heffeithio gan yr un amodau marchnad yn y DU ac yn fyd-eang, yn ogystal â symudiadau ym mhrisiau nwyddau, ac yn cyrchu deunyddiau crai, cynhwysion a nwyddau o bob rhan o'r DU a thramor.

Cyfyngiadau data

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ystod o setiau data eilaidd, gan gynnwys mynegeion prisiau nwyddau byd-eang, ystadegau masnach a chynhyrchu, a dangosyddion hinsawdd a risg. Mae'r ffynonellau hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, fel oedi cyn adrodd, diwygiadau ôl-weithredol i amcangyfrifon cynhyrchu a stoc, ac anghysondebau o ran cwmpas ar lefel gwlad a methodoleg. Fe allai prisiau nwyddau adlewyrchu disgwyliadau'r farchnad yn y dyfodol yn hytrach nag argaeledd ffisegol, tra bod data allbwn amaethyddol yn aml yn dibynnu ar amcangyfrifon wedi'u modelu neu ystadegau cenedlaethol hunanadroddedig sy'n amrywio o ran cywirdeb. Mae setiau data hinsawdd a thywydd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau eglurder gofodol ac efallai na fyddant yn cyfleu effeithiau lleol iawn (e.e. llifogydd neu sychder ar lefel fferm). O ganlyniad, dylid ystyried y dadansoddiad fel arwydd o risg gyfeiriadol yn hytrach nag asesiad amser real o amodau'r gadwyn gyflenwi.

Ffynonellau

Mae'r holl ffynonellau wedi cael eu dilysu. Cyrchwyd y data yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2026, yn dibynnu ar y dyddiadau rhyddhau. Mae'r rhestr o ffynonellau'n cynnwys, ymhlith eraill:

- Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)
- Y BBC
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
- Copernicus

- Cyd-bwyllgor Ymchwil yr Undeb Ewropeaidd
- System Gwybodaeth am y Farchnad Amaethyddol (AMIS) y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Data masnach Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)
- Y Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser (IGD)
- Y Weinyddiaeth Cefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA)
- Reuters
- Trading Economics
- Swyddfa Dywydd y Deyrnas Unedig
- Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA)
- Grŵp Banc y Byd

Atodiad 2 – Crynodeb o Wasanaethau Cynaliadwyedd a Gwydnwch Hinsawdd

Yr Is-adran Fwyd – Cymorth sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer busnesau Bwyd a Diod

Mae tîm Dyfodol Cynaliadwy yn rhoi cymorth ymarferol wedi'i ariannu i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru i wella effeithlonrwydd a chryfhau gwydnwch busnesau.

Y Gwasanaeth Cynaliadwyedd

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru ar eu taith gynaliadwyedd. Mae ein cynnig Adrodd ar Garbon yn cyd-fynd â Phrotocolau Nwyon Tŷ Gwydr a methodoleg Caffael Cyhoeddus. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rheoli'r Clwstwr Cynaliadwyedd, sef rhwydwaith sy'n canolbwyntio ar gydweithio, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ardystiad B Corp.

Y Gwasanaeth Gwydnwch Hinsawdd

Mae'r Gwasanaeth Gwydnwch Hinsawdd yn helpu busnesau i asesu eu risgiau mewn perthynas ag effeithiau'r hinsawdd a diogelu parhad busnes rhag tarfu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Yn rhan o'r cynnig hwn, gall busnesau gael sesiynau wedi'u teilwra, ar y safle, yn rhad ac am ddim ar gyfer uwch dimau arweinyddiaeth, gan eu helpu i ddatblygu strategaethau gwydnwch ymarferol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar Risgiau Hinsawdd a Chadwyn Gyflenwi i'r Diwydiant Bwyd a Diod.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael at y cymorth uchod, cysylltwch â sustainablefd@gov.wales

Mae prisiau cynnyrch byd-eang yn dangos rhagolygon cymysg ond o dan bwysau, gyda grawn, olewau llysiau, ffa soia a siwgr yn codi, gyda choffi a chig eidion wedi dod i lawr o uchafbwyntiau cynharach. Mae coco'n dal yn ansefydlog, ac mae tueddiadau gwrteithiau yn gwahanu, sy'n adlewyrchu amlygiad gwahanol i gostau ynni, cyfyngiadau ar allforion a tharfu ar longau. Mae colledion mewn cynhyrchiant oherwydd y tywydd, ansicrwydd ynglŷn ag El Niño a tharfu ar allforion o'r Môr Du i gyd yn cyfuno gyda galw cryf am fwyd anifeiliaid a biodanwyddau i ddylanwadu ar brisiau. I gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, mae'r symudiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gostau prynu cynhwysion ac yn anuniongyrchol ar gostau cig a llaeth drwy bwysau ar brisiau bwyd a gwrteithiau. Gall y gostyngiadau diweddar mewn prisiau olygu cyfleoedd i brynu, ond dylai busnesau asesu prisiau eu cyflenwyr eu hunain, dyddiadau adnewyddu contractau a dibyniaeth ar gyrchu, gan nad yw meincnodau byd-eang yn cyfateb ar unwaith nac mewn ffordd unffurf i gostau terfynol. Bydd angen rhagamcanu gofalus, ymgysylltu â chyflenwyr ac ystyried cynhwysion neu ffynonellau amgen i gynnal gorsymiau pan fydd ansawdd a manylebau cynnyrch yn caniatáu.

Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd – cynllun grant a luniwyd i wella perfformiad, cystadleurwydd ac effeithlonrwydd busnesau.

Blas Cymru – mae'n hyrwyddo bwyd a diod o Gymru ar lwyfan domestig a rhyngwladol.

Rhaglen Datblygu Masnach – mae'n cynorthwyo busnesau bwyd a diod i dyfu a chreu swyddi trwy ymgysylltu â masnach manwerthu, gwasanaeth bwyd a chyfanwerthu.

Rhaglen Twf a'r Rhwydwaith Clwstwr – mae'r rhwydwaith clwstwr yn sbarduno cydweithio rhwng busnesau. Mae'r Rhaglen Uwchraddio'n darparu'r offer a'r dulliau sy'n ofynnol i fusnesau fod yn wydn, ac i ffynnu a goresgyn y rhwystrau rhag uwchraddio.

Rhaglen Datblygu Allforio – mae'n arddangos bwyd a diod o Gymru i gynulleidfa ryngwladol o brynwyr, dosbarthwyr a dylanwadwyr, ac yn denu mewnfuddsoddiad.

Arloesi Bwyd Cymru / Rhaglen Helix – mae'r Rhaglen Helix yn dwyn pedair Canolfan Fwyd ynghyd ledled Cymru ac yn rhoi cymorth technegol a gweithredol ar bob agwedd ar weithgynhyrchu bwyd.

Cywain – mae'n rhoi sgiliau, gwybodaeth a chyngor arbenigol i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) bwyd a diod i ddatblygu a thyfu.

Sgiliau Bwyd a Diod Cymru – mae'n cynorthwyo busnesau bwyd a diod gyda phwyslais ar y diwydiant prosesu a gweithgynhyrchu i sicrhau bod cyflogeion yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant iawn ar gyfer eu busnes.

Mewnwelediad i'r Farchnad – gwybodaeth gyfredol am y sector bwyd a diod, ynghyd â rhagfynegiadau ynglŷn â datblygiadau yn y farchnad yn y dyfodol.

Partneriaethau Bwyd Lleol – mynd i'r afael â thlodi bwyd, cryfhau cadwyni cyflenwi bwyd lleol a sbarduno twf gwyrdd.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael at y cymorth uchod, cysylltwch â FoodDivisionalBusiness@gov.wales

Rhaglenni cymorth amaethyddol eraill

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw prif fframwaith cymorth Llywodraeth Cymru o 2026 ymlaen ac mae'n berthnasol i arddwriaeth ynghyd ag amaethyddiaeth.

Cynllun peilot Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy (SALS) Banc Datblygu Cymru – Benthyciadau ar gyfer Busnesau Cymru a gynlluniwyd i wella mynediad at gyllid fforddiadwy i fusnesau ffermio yng Nghymru.

Mae Cyswllt Ffermio yn helpu tyfwyr i fabwysiadu arferion hinsawdd-ddeallus, gan gynnwys technegau rheoli pridd, lleihau carbon a chynhyrchu cynaliadwy, sy'n sail i gyflawni canlyniadau hinsawdd ar draws y sector.

Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein

Cynllun Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy – Banc Datblygu